# ECO'R WYDDFA

RHIF 43 RHAGFYR 1979 Pris: 12c

## CADAIR EISTEDDFOD
### BRYNREFAIL I RHIAN



*Lliw coch oedd ar gadair yr eisteddfod eleni, a llongyfarchiadau i Rhian Cadwaladr Parry, o dŷ Eryri am ei hennill.*

*Y mae Rhian yn dod o Lanberis, ac ar ei hail flwyddyn yn y 6ed dosbarth yn astudio Cymraeg, Saesneg a Hanes. Mae'n gobeithio mynd o'r ysgol i Brifysgol Abertawe i astudio Anthropoleg Cymdeithasol, ac ymhellach ymlaen mae'n gobeithio y caiff weithio ym myd darlledu gyda'r BBC neu HTV.*

*Ysgrifennodd Rhian stori ar y testun 'Unigrwydd', a cherdd ar y testun 'Hydref', a chafodd ganmoliaeth uchel gan y Beirniad Llên, yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Coleg Prifysgol Bangor.*

## PENCAMPWYR



*Trowch i golofn Deiniolen am yr hanes.*

# ADLEWYRCHU'R ARDAL YN EI WAITH

**Mae hi'n dipyn o gam i roi'r gorau i swydd gymharol ddiogel fel un athro a mentro i ansicrwydd byd busnes. Ond dyna a wnaeth Christopher Bourne o Lanberis ddwy flynedd union yn ôl.**

Penderfynodd adael Ysgol Gyfun David Hughes, Porthaethwy lle bu am gyfnod hir yn dysgu Celfyddyd a Chrochenwaith ac encilio i'w weithdy yn ei gartref uwchben Llanberis. Yno, yn y llonyddwch a'r tawelwch teimlai y gallai ganolbwyntio ar agwedd ymarferol a datblygu'n llawnach rai syniadau sy ganddo ynglŷn â'i waith.

Daeth Christopher a'i wraig, Blanche, sydd ar hyn o bryd yn disgwyl eu trydydd plentyn, i fyw i Fur Mawr tua deng mlynedd yn ôl. Er nad ydynt hwy eu hunain yn hanu o'r ardal hoffai Christopher feddwl am ei waith fel rhywbeth hollol leol.

Sylfaen llawer o'i waith yw defnyddiau lleol fel siâl (mae'n ei gael o waith briciau Caernarfon), llwch llechi, clai Penmon a Dinas Dinlle, a lludw coed lleol.

Lleol hefyd yw ei ysbrydoliaeth. Gall elwa ar ei hyfforddiant fel arlunydd tirwedd i adlewyrchu'r ardal yn ei grochenwaith. Mae'r golygfeydd a ffurf y creigiau o amgylch ei gartref wedi dylanwadu llawer arno ac mae wedi ceisio eu cynrychioli yn ei waith.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae wedi canolbwyntio ar y gwahanol agweddau o grochenwaith – gwaith cain iawn sydd wedi ei anelu at yr ymwelwyr sy'n dylifo i'r ardal hon. Gan ei fod yn ymdrechu'n wirioneddol i adlewyrchu ardal ei gartref yn ei blatiau, costrelau, cannwyllbrennau, cerfluniau a mygiau, teimla Christopher fel y sawl sy'n prynu ei waith hefyd yn cael awyrgylch ardal eu hymweliad. Dyma hefyd y naws sydd mor werthfawr yn y gwobrau sy'n cael eu gwneud ganddo ar gyfer enillwyr gwahanol adrannau o Ras yr Wyddfa.

Daeth cannoedd o bobl i'w oriel fechan a'i weithdy yn ystod yr haf diwethaf. Mae ei gartref mewn safle delfrydol ar gyfer y rhai sy'n ymweld â'r rhaeadr gerllaw. Cyfnod llwyddiannus iawn fu hwnnw. Mae'n gwerthu ei waith mewn un siop yn Llanberis a hefyd yng Nghaer Belan, Dinas Dinlle ac yn Llangoed ym Môn.

Athrawes ran-amser yw Blanche ond mae hi hefyd yn gofalu am lyfrau'r busnes tra bo Christopher yn brysur yn y gweithdy. Yn y gorffennol, gadawyd i'r cyhoedd ymweld â'r gweithdy i weld y crefftwr wrth ei waith. 'Roedd hyn yn amharu gormod ar y gwaith, felly y bwriad ar gyfer y dyfodol yw neilltuo un diwrnod o'r wythnos ar gyfer hynny gan ddechrau yn ystod y tymor ymwelwyr nesaf.

Mae wedi cael cymorth i sefydlu gan yr Awdurdod Datblygu Cymreig ac mae'n gallu hysbysebu ei waith drwy'r Bwrdd Twristiaeth Cymreig.

Crybwyllwyd eisoes fod Christopher yn arlunydd yn ogystal â bod yn grochenydd. Gwnaeth lawer o luniau tirwedd yn bennaf, pan ddaeth i Lanberis gyntaf a chafodd arddangosfeydd yr Oriel Bangor.

Mae ysbryd menter yn rhan o wneuthuriad Christopher a Blanche Bourne. Dim ond tyddyn dwy ystafell didrydan oedd Mur Mawr pan ddaethant yno ddeng mlynedd yn ôl. Mae'r adeilad yn dal mor ddiarffordd ag erioed ond ychwanegwyd ystafelloedd eraill gan gynnwys llofft ac oriel. Adeiladwyd gweithdy ym mhen draw'r ardd ar ôl torri a naddu craig go 'styfnig.

Er ei fod yn ennill llai o arian nag a wnâi fel athro, teimla ei fod wedi gwneud y cam iawn. Ei fwriad yw gallu gwerthu ei waith mewn mwy o ganolfannau lleol. Dywedodd hefyd y gallai, gyda lwc, sefydlu cysylltiadau yn Perpignan, de Ffrainc pan fydd y teulu yn ymweld â hen gartref Blanche yng Nghatalonia y flwyddyn nesa.

Ein dymuniadau gorau iddynt.



# ECO'R WYDDFA


Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (Caernarfon 3776).

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs. M. Evans, "Lloc", Llanrug.
(C'fon 3 227)

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price.
Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

**TREFNYDD BUSNES:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.

### RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf allan Rhagfyr 20. Deunydd i law'r golygyddion perthnasol erbyn Rhagfyr 12.

## CARIAD, CAREDIGRWYDD A GODDEFGARWCH

*Mewn cyfnod o sôn a siarad am fryntni a chasineb, da profi bod conglau o hyd lle mae cariad, caredigrwydd a goddefgarwch yn teyrnasu.*

*Yn ddiweddar cefais fy hun mewn congl felly, a hynny ym Mro Eryri — Ward Peris, Ysbyty Eryri — ward fechan gartrefol siriol — yr oedran yn amrywio o un ar hugain i gant namyn chwech. Braint oedd cael cyd-fyw am naw niwrnod a'r cwmni bach yma — (y tro cyntaf i mi gysgu mewn ysbyty).*

*Er bod dioddefaint yma, yr oedd hefyd obaith a hyder a'r ewyllys a'r dycnwch ailwynebu bywyd, yr awydd i fyw a brwydro eto, a'r gobaith hwn gan yr hynaf fel yr ieuengaf — yn wir yr oedd rhyw ieuengrwydd a gobaith yng nghanol poen a llesgedd yn gyffredin i bob un.*

*Nid yw hyn i'w ryfeddu ato o gofio mai tîm o bobl sy'n gweithio yn y ward hon yw rhai sydd yn canolbwyntio eu holl lafur er lles y claf, meithrin hyder lle mae ofn, gobaith lle mae anobaith, cysur lle mae anghysur, a'r holl ddaioni hwn yn dod yn dawel a naturiol fel gwlith y bore.*

*Diolch am y llawfeddygon, Chwaer y Ward, y Gweinyddesau, a phob unigolyn sydd â rhan yn y gwaith o wneud Ward Peris yr hyn yw.*

*Ni fynnwn chwaith anghofio ymweliadau Caplan yr Ysbyty, a Gweinidolgion o bob enwad, y gweinyddu tawel cysgegredig o'r Cymun Sanctaidd a chonsyrn teuluoedd a chyfeillion a'u ffordd o ddangos hynny.*

*Gwir fod Crist eto'n tramwyo Bro Eryri.*

*Megan Humphreys,*
*4 Tan y Coed Terrrace,*
*Llanrug.*

---

*Annwyl Olygydd,*

*Moel Rhiwen*

*Carwn ofod yn yr* **Eco** *i gywiro sylw Glyn Hewitt yn rhifyn Hydref.*

*Nid yn ystod rhyfel 1914-18 y torrwyd y coed i lawr ar Foel Rhiwen ond yn ystod rhyfel 1939-45.*

*Cofiaf fel yr aem ni'r plant i hel llus i'r Foel, a rhaid oedd cerdded drwy'r coed i fyny i ben y Foel. Cofiaf hefyd fynd yno i hel coed tân yn ystod streic y glowyr yn 1926. Roedd Moel Rhiwen dan goed hyd 1940-41 os iawn y cofiaf.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*R.D. Roberts,*
*Penfforddelen,*
*Y Groeslon.*

---

*Cymdeithas Tai Gwynedd,*
*Ffordd Llanllyfni,*
*Penygroes. (Ffôn: 730).*

*Annwyl Olygydd,*

*A fyddwch cystal â chyhoeddi yn rhifyn nesaf eich papur y rhestr ganlynol o fuddugwyr Raffl Cymdeithas Tai Gwynedd a dynnwyd gan y Cadeirydd, y Meddyg Ieuan Parri ym Mhen-y-groes ar Hydref 31ain, 1979:*

**Gwobr 1af (£50): Mrs H. Thomas, Delfryn, Morfa Nefyn**

**2il (£25): Esyllt Haf, 10 Tai Newyddion, Trefor**

**3ydd (£5): Awen M. Morgan, Godre'r Graig, Penmorfa, Porthmadog**

**Gwobr o £1 yr un i'r canlynol:**

**A.C. Thomas, 1 Pant yr Onnen, Rhiw, Blaenau Ffestiniog; Dolfor, Pencaenewydd, Pwllheli; Mary Parri, 7 Gwern Gwalia, Glanrafon, Corwen; Elen Wyn Griffiths, Ty'n y Maes, 1 Elmgrove Rd., Eglwys Newydd, Caerdydd; Jean Owen, Pen-y-groes; Owen Richards, 38 Hazelwood Ave., Radur, Caerdydd; Mair Jones, Hendre, Dolwyddelan; B. George, Cedrwydd, Ffordd Glanymor, Goodwich, Dyfed; Eirian Williams, Hendy, Llanbedr, Gwynedd; J. Rhoda Williams, Rhyd y Felin, Trawsfynydd; Gareth Wyn Jones, Minffordd, Penmynydd, Ynys Môn; S. Wyn Huws, Cemaes, Ynys Môn; I. Owen, Pant y Gwril, Sarn, Pwllheli; M. Lewis, Tremadog, Porthmadog; Euros Owen, Perth Neuadd, Talsarn, Llanbedr-Pont-Steffan; Eleri a Fi, Ysgol Treborth, Bangor; Ceri Jones, Preswylfa, Gellilydan, Blaenau Ffestiniog; Alan Roberts, 15 Cae Sarn, Y Groeslon, Caernarfon; Y Plant, 2 Gwern Eithin, Dolgellau; Mrs M.C. Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont, Deiniolen, Caernarfon.**

*Gyda diolch,*
*Yr eiddoch yn gywir,*
*ar ran y Gymdeithas,*
*Dafydd Iwan (Trefnydd)*

## RHEILFFORDD YR WYDDFA

Hanes diddorol iawn yw hanes cychwyn y rheilffordd i ben yr Wyddfa.

Cymerwyd dwy flynedd i osod y rheiliau ac yr oedd oddeutu 150 o bobl yn gweithio ar y lein. Yn ôl yr hanes, gosodent 120 o lathenni, ar gyfartaledd, o reilffordd mewn diwrnod. Fel y dringent yn uwch yr oeddynt yn cael 2g yr awr yn ychwanegol, – 'Height Money' fel y'i gelwid.

Sgweiar y Faenol oedd perchennog y stad i gopa'r Wyddfa. Yr oedd y sgweiar yn bendant yn erbyn rhoi caniatâd i ŵr o'r enw Richard Moon, Prif Swyddog y fenter, i osod y ffordd haearn ar ei dir. Dewisodd Syr Richard safle arall, sef o Ddinas i Ryd-ddu. Dechreuwyd gosod lein yn y fan honno, lein 'Narrow Gauge', yn 1877. Gwrthwynebai trigolion Llanberis, gan fod ymwelwyr haf, bellach, yn dechrau tyrru i Ryd-ddu. Penderfynwyd mewn cyfarfod yn yr ardal, ceisio dwyn perswâd ar berchennog y Faenol, Mr Asheton Smith, ac fe gydsyniodd yntau o'r diwedd. O ganlyniad, daeth busnes ymwelwyr yn ôl i Lanberis, a byth oddi ar hynny maent yn heidio yma bob blwyddyn.

Torrwyd y dywarchen gyntaf gan ferch y Sgweiar, Enid, a galwyd un o'r peiriannau wrth ei henw. LADAS oedd enw'r peiriant cyntaf, sef llythrennau cyntaf enw gwraig y sgweiar, – Laura Alice Duff Ashton Smith.

Dechreuwyd ar y gwaith fis Rhagfyr 1894. Cysylltwyd Llanberis â ffordd haearn yn 1864.

Diddorol yw cofio fod y ffordd haearn hynaf yn sir Gaernarfon yn 180 oed. Fe'i gwnaed yn 1800. Ffordd haearn geffyl oedd, hynny yw, ceffylau ac nid injian oedd yn tynnu ar hyd-ddi. Richard Pennant, Arglwydd Penrhyn, a'i gwnaeth ac âi o chwarel y Penrhyn i'r porthladd oedd ganddo ger Bangor. Yn 1824 gwnaed ffordd haearn o chwarel Dinorwig i'r Felinheli, ac ar y lein honno y gwelwyd yr injian ager gyntaf yn sir Gaernarfon. Ei henw oedd y 'Fire Queen'. £1,500 oedd ei phris a bu'n tynnu gwagenni o'r chwarel i'r Felinheli tan 1886.

Yn y cyfnod pan oedd rheilffordd yr Wyddfa yn cael ei hadeiladu yr oedd cymeriad arbennig iawn yn byw yn yr ardal, Fe'i galwai ei hun wrth yr enw 'Alarch Gwyrfai'. Teithiai'r plwyf gyda chloch fawr i gyhoeddi beth oedd yn digwydd yn y pentrefi. Yr oedd gan y nafis a weithiai ar y rheilffordd wersyll ar y llain o dir gwastad ger y giât sy'n mynd i'r parc, a digwyddodd llawer sgarmes rhwng yr hogiau lleol a'r nafis. Ai dyna'r rheswm i'r llecyn gael ei alw yn 'Limpo'? Clywais mai ystyr yr enw yw 'The Gate to Hell'. Yr oedd Alarch Gwyrfai yn dipyn o rigymwr a dyma un pennill a luniodd i'r nafis:

Pan fo'r hin yn hegar arw
I lawr y lein y dont am gwrw,
Ac i'r taproom yn Llanberis,
Lle fel nefoedd oedd i'r nafis.

*J.W. Elis (Perisfab)*

### CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR





NEWYDD SBON–

DYN Y MYNCI
storiau Wil Sam/£1.40

Caneuon TECWYN IFAN/£1.30

DAGRAU RHEW
cerddi Siôn Aled/75c

25 CÂN A CHAROL/£1.60
Hawys Glyn –argraffiad newydd!

...a'r 22ain yng nghyfres Y Llewod
Y LLEWOD A'R SMYGLWYR
Dafydd Parri/85c

heb anghofio'r rhecsyn erchyll
LOL 25c (os bydd yr Uchel Lys yn caniatáu)

EITHA NEWYDD–

TAI BWYTA CYMRU
Eluned Rowlands/£1.45

Y NOSON WOBRWYO
Heini Gruffudd/£1.60

DAU LYGAD DU
Eirwen Gwynn/£1.35

ENGLYNION PIWS/75c

TREFFIN Gareth Miles/£1.35

YCH A FI

...neu beth am chwarae Gêm y Steddfod/£2.95

Y Lolfa
Talybont Ceredigion ffôn 304
Mynna ein Catalog rhad 32-tudalen!


---

*Ysgol Tegryn,*
*Tegryn, Llanfyrnach,*
*Dyfed.*

*Annwyl Olygydd,*

*'Rydym fel ysgol yn dathlu ein canmlwyddiant y flwyddyn nesaf. Bydd cyngerdd gan blant a chyn-ddisgyblion yr ysgol nos Wener, 20 Mehefin, 1980. Te Croeso brynhawn Sadwrn 21 Mehefin a Noson o Fawl yng nghapel Llwyn-yr-hwrdd nos Sul 22 Mehefin.*

*Gan ei bod yn anodd cysylltu â chyn-ddisgyblion yr ardal, tybed a fyddai'n bosibl cynnwys y llythyr hwn yn eich Papur Bro. Braf fyddai croesawu cyn-ddisgyblion a chyn-athrawon yn ôl i'r ardal i ymuno â ni yn y dathlu.*

*Os dymuna unrhyw un sy'n darllen y llythyr hwn archebu plât (£5) neu gwpan (£1.50) y dathlu, cysyllter â Miss Annette Lewis (trysorydd), Ysgol Tegryn. Hoffem gael yr archebion, ynghyd â'r arian, i law erbyn Ionawr 19.*

*Diolch yn fawr,*
*Yr eiddoch yn gywir,*
*Brenda Lewis (ysgrifennydd).*

# LLANRUG

NEWYDDION Y SEINDORF – Daeth y Seindorf yn bumed allan o 17 o fandiau gorau'r wlad yn Pontin's, Prestatyn, ar Dachwedd 3.

'Roedd y cyngerdd a gynhaliwyd ar y 9fed o'r mis hwn yn llwyddiannus iawn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Ar Dachwedd 10, danfonwyd Santa i'r Nelson unwaith eto.

Ar Sul y Cofio 'roedd y Seindorf yn bresennol yn y Sefydliad Coffa, Llanrug am 9.15 am, ac wedyn aethant i Gaernarfon i wasanaeth arall yno am 10.30 am. Seiniwyd yr Alwad Olaf a'r 'reveille' gan Mr John Tame.

Er mai braidd yn siomedig oedd canlyniad y gystadleuaeth yn Nghei Connah, daeth anrhydedd i'r Seindorf drwy lwyddiant Mr Glyn Hughes. Cafodd gwpan am fod y chwaraewr 'euphonium' gorau yn adrannau A,B a C. Mae'r adrannau hyn yn cynnwys bandiau gorau Gogledd Cymru.

Cynhelir cinio Nadolig y Seindorf yng ngwesty'r Royal Goat, Beddgelert ar Ragfyr 22. Enwau i Mrs Joyce Jones, 2 Bryn Fedwen.

Y GOBEITHLU – Bob gaeaf, ar hyd y blynyddoedd cynhelir Gobeithlu ar nos Lun yn Festri'r Capel Mawr, ac y mae nifer dda o blant yn dal i'w fynychu. Yn ystod y mis dechreuwyd y cyfarfodydd drwy ddefosiwn gan Christine Jordan, Nia Wyn Jones, Wendy Jones, Eleri Gwenan, Susan Wheldon Morris, Anwen Parry ac Wyn Parry. Dangoswyd ffilmiau o 'Ddamhegion Iesu Grist' gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen, gyda Mr John Williams, Gweledfa yn cynorthwyo. Dysgwyd carolau newydd o dan arweiniad Mrs M. Jones, Ogwen ar gyfer y Gwasanaeth Carolau a gynhelir yn y Capel Mawr tua'r Nadolig. Diolchodd y plant am roddion a anfonwyd at Barti'r Nadolig gan Mr O.S. Roberts, Brunei (Eryri gynt) a Mrs Myra Bryn Clarke, Kettering (Y Fedwen gynt).

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Tachwedd 13, gyda Mrs N. Lovatt yn y gadair. Rhoddodd Mrs Lovatt adroddiad o'r Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth a chafwyd crynodeb o anerchiad Gerallt Jones, a chafwyd rhan o anerchiad Dr Eirwen Gwynn ar Ynni Niwcliar ganddi hi ei hun.

Y siaradwr gwadd oedd Dr Williams, Waunfawr a'i destun, 'Cadw'n Iach'. Cymerodd amryw o'r aelodau ran yn y drafodaeth a ddilynodd. Diolchwyd iddo gan Mrs J.C. Williams, Bod Fair.

Addawodd llawer o'r aelodau fynd i helpu i'r Ffair Nadolig yn Neuadd y Fyddin, Caernarfon ar Ragfyr 8. Diolchwyd i'r gwestwragedd gan Mrs Margaret Jones, Dwyros. Parti Nadolig fydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd ar Ragfyr 11, lluniaeth gydag adloniant ysgafn gan aelodau'r gangen am 50c.

COFEB GOFFA – Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i drigolion y pentref a'r amryw gyfeillion o'r tu allan am eu hymateb rhagorol i'r apêl at Gronfa'r Gofeb. Trwy'r haelioni hwn prynwyd Tabl Coffa teilwng o goffadwriaeth y rhai a roddodd eu bywydau yn aberth. Dymunwn hefyd ddiolch i Mr Gwilym Jones am fâs garreg ac i Mr Wally Williams, 6a, Ffordd St Helen, Caernarfon am ei rodd o fwrdd.

Derbyniwch ein diolch gwresocaf, ar ran y Pwyllgor: R. Williams (Llywydd), W. Pritchard (Trysorydd, E. Owen (Ysgrifennydd)

MANTOLEN CRONFA GOFFA
1939–45

| | |
|---|---|
| **DERBYNIADAU** | |
| Rhoddion | £252.30 |
| Llôg y Banc | 11.19 |
| | 263.49 |
| **TALIADAU** | |
| I Mr G. Jones | 227.00 |
| 3 Fâs | 6.09 |
| Mewn Llaw | 30.40 |
| 263.49 | |

Penderfynwyd cyflwyno'r gweddill, £30.40, i gronfa'r Sefydliad Coffa.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, Tachwedd 20 cafwyd darlith ddiddorol iawn gan y Parch A. Wynne Jones, Tregarth. Ei destun oedd 'Hiwmor mewn Du'. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Ll.O. Roberts, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan Mr Emrys Owen a Mrs M. Lloyd Williams.

YN YR YSBYTY – Dymunir adferiad buan i Mr Meurig Jones, 29 Bro Rhyddallt a Mr W. Ellis Owen, Bryn-y-maen, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

AR Y RADIO – Clywyd llais Mrs Lloyd Williams (Mari Lewis, Yr Herald), Llys Awen, ar y radio nos Sul, Tachwedd 18 ar y rhaglen boblogaidd 'Rhwng Gŵyl a Gwaith'. 'Roedd Mrs Williams yn dathlu ei phen-blwydd yn 77 oed yn ystod yr wythnos flaenorol. Ein llongyfarchiadau iddi; mae ei chyfraniad i Eco'r Wyddfa bob mis, yn dderbyniol iawn gan y darllenwyr.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Agorwyd tymor y gymdeithas nos Iau, Tachwedd 9, pryd y cafwyd sgwrs a sleidiau ar ei daith i'r Almaen gan Mr Tegid Roberts, Arwel. Diolchwyd i Mr Roberts am noson ddifyr ac addysgiadol gan Mrs Myfi Roberts, Tai Plastirion, a Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd a chafwyd gair ymhellach gan Mr J.G. Jones, Gorffwysfa. Llywyddwyd gan Mrs W.O. Roberts.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, CAPEL MAWR – Nos Iau, Tachwedd 1, cafwyd Noson Goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs M. Evans, Lloc. Fel arfer, anfonwyd dymuniadau da at chwiorydd mewn gwaeledd a diolchwyd am roddion. Cwblhawyd trefniadau'r Ffair Nadolig a gynhelir ar Ragfyr 6. Rhoddwyd y coffi gan Mrs L.A. Horman, Venice, a Mrs M E. Jones, Ogwen. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs N. Roberts, Annedd Wen.

O'R YSBYTY – Llawenydd i'r ardal yw croesawu Miss Megan Humphreys, Cadnant, Tai Tanycoed; Mrs Louie Pritchard Gwynfa a Mrs Lloyd Jones, Hafod Owen adref o'r ysbyty. Hyderwn y cânt adferiad i'w llawn iechyd yn fuan.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen nos Wener, 16 Tachwedd. Y siaradwr gwadd oedd Mr Dafydd Wigley AS, a daeth nifer dda o aelodau hen a newydd i wrando ar araith rymus. Cafwyd dadansoddiad o'r sefyllfa wleidyddol, y peryglon i Gymru a'r iaith, ac hyd yn oed y perygl o ryfel byd a allai ddilyn polisiau y llywodraeth Doriaidd. Tristwch y sefyllfa oedd bod cynifer o bobol Cymru wedi pleidleisio i Blaid mor ryfelgar ac eithafol â hon. Cafwyd trafodaeth ar benderfyniad Mr Whitelaw i beidio cadw at yr addewidion i roi rhaglenni teledu Cymraeg i gyd ar y 4edd Sianel.

Etholwyd Mr Gwyndaf Jones yn gadeirydd, Miss Phyllis Elis yn is-gadeirydd; Mr Emlyn Jones yn Drysorydd; Mr Goronwy Hughes, Ysgrifennydd; Miss Delyth W. Jones, is-ysgrifennydd; trefnyddion aelodaeth Mrs W.A. Jones, Mrs V. Williams a Mr R. Lloyd Jones. Gohebydd y Wasg, Mr J.W. Griffith, Mr Ifan Parri. Pwyllgor Adloniant – Mr Gareth Roberts, Mr Twrog Jones, Mr R.L. Jones a Mr Ifan Parri. Trefnwyd cyfarfodydd a gweithgareddau ar gyfer y gaeaf a hysbyswyd y byddai Cwmni Theatr Bara Caws yn perfformio drama yn Ysgol Brynrefail ar y 6 o Ragfyr. Mynediad 50c a phensiynwyr a phlant 30c.

Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad ag aelodau a oedd mewn gwaeledd a dymunwyd adferiad buan iddynt.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Undeb y Mamau yn Y Rheithordy yn ddiweddar. Y Rheithor oedd yn offrymu'r gweddiau ar ddechrau'r cyfarfod ac ef hefyd oedd yn llywyddu. Dewiswyd y swyddogion fel a ganlyn:– Swyddog Gweinyddol, Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy; Llywydd: Mrs J.E. Watkins, Dolwen, Cwm-y-glo; Ysgrifennydd: Mrs R. Pierce, Glan'rafon, Pontrug; Is-ysgrifennydd: Mrs L Orritt, Morannedd, Cwm-y-glo; Trysorydd: Mrs T. Owen, Isfryn, Cwm-y-glo; Is-drysorydd: Mrs H. Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-glo. Etholwyd Miss A.C. Jones, Glanllyn yn ymwelydd yn Llanrug a Mrs M.E. Hughes Craig y Don a Mrs T. Roberts, Bod Gwilym yn ymwelwyr yng Nghwm-y-glo. Y gwestwragedd oedd Miss A.C. Jones, Glanllyn, Mrs Spratt, Glanllyn a Mrs S. Jones, 11 Bryn Moelyn. Diweddwyd drwy weddi.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yn yr Ysgol Gynràdd nos Lun, Tachwedd 19 gyda'r Rheithor yn y gadair ac agorwyd y cyfarfod drwy weddi ganddo. Fe benderfynwyd yn y cyfarfod i newid amser yr Osber Gymraeg ar nos Sul o 6.00 pm i 3.30 pm. Bydd y newid yn dechrau ar Sul 2 Rhagfyr ac yn parhau hyd y Pasg.

PARTI'R PENSIYNWYR – Mae cais ar i bensiynwyr Llanrug a Than-y-coed gofio'r dyddiad RHAGFYR 12. Dyma ddiwrnod eu parti Nadolig. Gofynnir i bob un ddod â'i gyllell a'i fforc a'i lwy ei hun.

## YN EISIAU – HANES TAFARN

**MAE Peter a Muriel Cordon, perchnogion y Glyntwrog, Llanrug yn awyddus iawn i gael unrhyw wybodaeth ynglŷn ag enw eu tafarn.**

**Y tebygrwydd yw mai o Glynllifon (yr ystâd) y daw'r rhan gyntaf ac mai o Landwrog (y plwy) y daw ail ran yr enw. Ond hoffai Mr a Mrs Cordon gael llawer mwy o fanylion na hynny. Eu bwriad yw arddangos yr enw yn ddarluniadol y tu allan i'r dafarn a defnyddio unrhyw agweddau diddorol o hanes y lle i addurno y tu mewn.**

**Bydd yr estyniad newydd sydd wedi ei ddechrau yn gweddnewid y Glyntwrog a theimla Mr a Mrs Cordon yn gryf ei bod yn bwysig iddynt gadw cymeriad y dafarn a'r awyrgylch leol. Un ffordd o geisio sicrhau hyn yw trwy'r hanes sy'n gysylltiedig â hi.**

**Beth amdani, chwi haneswyr lleol? Os oes gennych unrhyw wybodaeth am hanes y Glyntwrog anfonwch air atom yn yr *Eco* neu gellwch gysylltu yn uniongyrchol â Mr a Mrs Cordon, Y Glyntwrog, Llanrug.**



TAITH BYSGOTA GLYNTWROG

*Dyma'r criw hwyliog a fentrodd i'r môr ger Rhosneigr yn ddiweddar. Er i'r môr garw effeithio ar un neu ddau ohonynt, maent i gyd wedi llwyddo i wenu'n ddewr ar y camera!*



## AR WERTH

Beic merch mewn cyflwr da
Beic i fachgen tua 8 oed
Beic i eneth neu fachgen o 8 i 10 oed

Ymholiadau:
Y Felinheli 670861


## COFEB GOFFA LLANRUG

*Dyma lun y gofeb a welir yn y Sefydliad, Llanrug.*



# CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i bawb

**Tŷ Bwyta**

STRYD FAWR

**Llanberis**

Ffôn: Padarn 487

BWYD DA AM
BRIS RHESYMOL

---



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

oddi wrth

**THOMAS PRITCHARD**
***IRONMONGER***

BIRMINGHAM HOUSE

LLANBERIS
Ffôn 206

---



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO

BRYSIWCH I GAEL EICH


**Teganau**

YN SIOP **E. WILSON HUGHES**
*84 Stryd Fawr*
**LLANBERIS** FFÔN 491

---

Nid dim ond siop i ddringwyr
ydi siop Joe Brown
Dewch, er enghraifft, i weld
y dewis gwych o gotiau 'quilted'
i'w gwisgo bob dydd.
Mae'r prisiau cyn rhated â
neb yn y cylch ac mi wnaent
anrhegion Nadolig delfrydol.

**Cofiwch –
I ddringwyr a llawer mwy!**



**joe brown**
CLIMBING & CAMPING
EQUIPMENT SPECIALIST

**LLANBERIS TEL. 327**

**Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i Bawb**

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



---

GAN BWY
MAE'R GWALLT DELA'N Y FRO?
*ATEB:* CWSMERIAID

**NEW IMAGE
HAIR DESIGN**

**STRYD FAWR
LLANBERIS**

*Ffôn Llanberis 627*

*NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA ICHWI OLL*

Dymuna
Mr a Mrs. G. M. EVANS

# CASTLE GIFT SHOPS LTD.

Llanberis (379) Caernarfon (3158)

ddiolch yn fawr i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
am bob cefnogaeth yn ystod 1979
a dymuno 1980 lewyrchus i bawb

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Laethog!

# A.W. HUGHES

DYN LLEFRITH

FFARM BRON ERYRI

LLANBERIS Ffôn: 391

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
AM 1980
oddi wrth
W. J. DAVIES

# MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn 225.

A.A. R.A.C. M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth

# Dorothy's

SIOP 'DAFEDD
A DILLAD PLANT

38 STRYD FAWR **Llanberis** Ffôn: 772

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i bawb oddi wrth

# Bessie Jones Siop

STRYD FAWR
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA

# ROSALIND

FFASIYNAU
MERCHED

32 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 459

ROYAL VICTORIA HOTEL
GWESTY BRENHINOL VICTORIA
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth

# WESTY BRENHINOL VICTORIA LLANBERIS

FFÔN LLANBERIS 253



NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth

# Vera a Haydn

SIOP
CHIPS

SNOWDON VALLEY
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis 659

NADOLIG LLAWEN
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Mr. a Mrs. W.JONES
Gwen, Alwena
a Michael Wyn

# Padarn Stores

LLANBERIS
Llanberis 496
BARGEINION

Mace

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth
**DANNY & NERYS ROBERTS**

## Y Bistro

**45 STRYD FAWR**
**LLANBERIS**

*Ffôn PADARN 278*

---

# CYFARCHION NADOLIG O

---

Lle newydd sbon i fwynhau
eich hun y Nadolig hwn ...

龍 騰

**BWYTY SIEINIAIDD Y**
# DRAGON
**39 STRYD FAWR**
**LLANBERIS**

AR AGOR:
12.00 – 2.00 pm
5.00 –11.30 pm
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
**GWASANAETH PRYD PECYN**
*NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA*

---

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
**MARTIN & CAROL**

## PRINCE OF WALES LLANBERIS
*Ffôn LLANBERIS 708*

Cwrw blasus
Croeso cartrefol

Adloniant:–
**Nos Fercher a Nos Sadwrn**
Canu Cymraeg efo'r organ
**Nos Wener**
Country & Western

---

**NADOLIG LLAWEN**
**A**
**BLWYDDYN NEWYDD**
**DDA**
**oddi wrth**



# PETE'S EATS

AR AGOR
8am – 8pm
7 DIWRNOD
YR
WYTHNOS

**STRYD FAWR**
**LLANBERIS**

---

# SIOP GOED
STRYD FAWR
# Llanberis



DIOLCH I BAWB
AM GEFNOGAETH YN
YSTOD 1979 –
NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
YN 1980

---

DYMUNIADAU GORAU AM NADOLIG LLAWEN
ODDI WRTH BAWB YN

# ODYN COPR

STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: Padarn 366




---

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth
# H.E. HUGHES
## a'r MEIBION



**Ffôn: 444**

MASNACHWYR GLO
1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

---



**Nadolig Llawen**
**a Blwyddyn Newydd Dda**
**i bawb yn**
**Llanberis a'r Cylch**
**oddi wrth**

# CENTRAL GARAGE

**LLANBERIS.**
**Ffôn: 202**

**Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn**

6

# LANBERIS


NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth

**TOM JONES**

A'R CWMNI

STORFA GIG GLYN PADARN LLANBERIS (Ffôn 319)



CYFARCHION Y TYMOR oddi wrth

**Dilys Baylis**

SIOP MEIRIONFA LLANBERIS



DEWIS DA O DRIMINS NADOLIG AC ANRHEGION I BAWB O'R TEULU

**HUGH PERIS PRITCHARD**

**Dinorwig House**

**Llanberis**

FFÔN: LLANBERIS 300

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL





**ROBERT GARTSIDE B.Sc.,M.P.S.**

FFERYLLYDD

COMPTON HOUSE

LLANBERIS Ffôn : 264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau

SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY

MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau

AGFA, KODAK a FUJI

Dewis da o winoedd a gwirodydd

NADOLIG LLAWEN I BAWB!



CYFARCHION Y TYMOR Oddi wrth

**IDWAL THOMAS**

SIOP ESGIDIAU

Stryd Fawr


**LLANBERIS**

*Ffôn PADARN 282*






**Lle Rhagorol I Brynu Eich Anrhegion Nadolig!**




**Llanberis Art & Craft**

LLANBERIS, GWYNEDD TEL. 597



Am ddillad plant -



**Basil Brush**

a llawer mwy, i blant o fabanod i dair ar ddeg oed.

A GWISG SWYDDOGOL BECHGYN A GENETHOD YSGOL BRYNREFAIL

**HARLEY'S**

**LLANBERIS** *FFÔN 393*

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

# LLANBERIS

CYDYMDEIMLIR – yn ddwys iawn â **Mrs Laura Jones, Pen Graig (gynt o Westy'r Grosvenor) ar golli ei brawd yn St Helens.**

YN YR YSBYTY – Dymunwn wellhad buan i'r canlynol: Mrs Beryl Owen, Maes Padarn; Mrs Mary Thomas, Pant Du; Mr Noel Jones, Maes Padarn; Mr Alun Williams, Eirianfa. Gobeithio y cânt oll ddychwelyd adref cyn bo hir.

MARWOLAETHAU – Yn ystod y mis bu rhai o'r ardalwyr mewn profedigaethau trwm, trwy golli rhai annwyl iawn iddynt. Cydymdeimlir â'r teuluoedd yn eu colled.

Mr Gwilym Pritchard: Yn frawychus o sydyn bu farw Gwilym Prichard, Stryd Bethesda. Un o feibion yr ardal ac er ei fod wedi byw yn Llanrug am rai blynyddoedd, dychwelodd i Lanberis pan ymddeolodd. Cydymdeimlir â'i weddw, ei unig ferch, hefyd y teulu oll.

Mr Charles Owen; Ar ôl salwch hir bu farw Mr Owen, Maes Padarn. Gweithiodd am flynyddoedd yn y Gilfach Ddu, ac yna aeth i Fryste i weithio, yna dychwelodd i Gymru gyda'i briod. Cydymdeimlwn â'i weddw a'r teulu yn eu colled.

Tachwedd 15, yn 25 oed, bu farw yn dawel yn ei gwsg Glyn mab ieuengaf Alun a Gwyneth Williams, Eirianfa, a brawd John. Addysgwyd Glyn yn ysgolion Dolbadarn, Brynrefail a Choleg Politechneg Gogledd Stafford, lle y graddiodd gydag anrhydedd yn BSc. mewn Gwyddoniaeth Cyfrifiadur. Cafodd swydd fel Rhaglennwr Cyfrifiaduron gyda Chyngor Metro-ddinesig Gorllewin Swydd Efrog yn Wakefield, lle y bu am ddwy flynedd, ac yna ymadael i'r un swydd gyda Bwrdd Nwy Gogledd-Ddwyrain Swydd Efrog yn Leeds, ac yr oedd dyfodol gwych o'i flaen.

'Roedd Glyn yn gymeriad tawel a diymhongar. Ei brif ddiddordebau oedd llenyddiaeth a cherddoriaeth glasurol. Daeth amryw o'i ffrindiau o Swydd Efrog i'w angladd – a'r un oedd gair pob un, fod Glyn yn gymeriad arbennig, ac er ei fod yn mwynhau hwyl bywyd – 'roedd yn hawlio parch ac edmygedd. Dioddefodd ei afiechyd blin yn dawel a dewr heb unwaith gwyno. Erys y cof amdano yn hir iawn.

CLWB ERYRI – Y siaradwr yng Nghlwb Eryri y mis yma oedd Mr Iolo Llywelyn, Llanrug, a llywyddwyd y noson gan Mr Brython Jones, Llanrug.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Dangoswyd sleidiau gan Mr John Edwards, Llandudno ar ei daith ym Mhatagonia. Cafwyd araith ddifyr iawn ganddo a diolchwyd iddo gan Mrs Mair Jones, a Mrs John Davies.

Cafodd rhai aelodau noson ddifyr iawn yn yr opera yn Llandudno.

Y CLWB IEUENCTID – Bu'r aelodau yn mynd o gwmpas yn ddiwyd iawn i gasglu arian tuag at Gymdeithas Clyb au Ieuenctid Cymru, a chafwyd cefnogaeth dda iawn gan yr ardalwyr.

Yn nhwrnameint Arfon – bu'r tîm pump-bob-ochr yn llwyddiannus yn erbyn timau Rhosgadfan, a Chaernarfon. Aelodau'r tîm oedd Elaine Jones, Michelle Thomas, Pat Owen, Nia Jones, Eurgain Roberts a Janice Jones.

Yr wythnos diwethaf buont yn llwyddiannus unwaith eto yn erbyn Tudweiliog – acyna yn y gêm derfynol, llwyddasant i ennill y bencampwriaeth. Llongyfarchiadau genod! Pwy sy'n dweud mai hogia yn unig sy'n bencampwyr gyda phêl.

SUL Y COFIO – Oherwydd y tywydd garw methwyd â chynnal y gwasanaeth wrth y Gofgolofn; cynhaliwyd y cyfan yn y Ganolfan.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Canon Alun Jones, a'r Parch Marcus Robinson. 'Roedd Seindorf Arian Llanberis yn bresennol. Arweiniwyd adran leol o'r Lleng Brydeinig gan Maj R. Marslen-Jones. Cymerwyd rhan hefyd gan yr adran ambiwlans.

Dymuna Mr A. Griffith, Trefnydd y Pabi, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth eto eleni.

APÊL 'BLUE PETER'– Cynhaliwyd arwerthiant llwyddiannus iawn yn y ganolfan ar gyfer plant bach Cambodia. Yr elw oedd £165, a derbyniwyd siec o £50 o Ysgol Dolbadarn.

GRADD – Llongyfarchiadau i Corporal Wendy Craven (gynt Roberts), merch Mr a Mrs I. Roberts, 5 Rhes Olgra, ar fod yn llwyddiannus yn ei harholiadau nyrsio.

FFARWELIO – Trist oedd ffarwelio yn ddiweddar â Nyrs Marian Jones, Sŵn yr Afon, Ceunant. Bu Marian am flynyddoedd yn nyrs ardal yn Llanberis. Mae wedi ymadael i'r Coleg yn Wrecsam am gwrs blwyddyn – i fod yn Ymwelydd Iechyd.

Dymunwn bob lwc iddi.

CYFARFOD UNDEBOL EGLWYSI'R ARDAL – Cynhaliwyd cyfarfod trefnu yn Festri Capel Coch gyda'r Parch Marcus Robinson yn llywyddu. Eglurwyd pwrpas y cyfarfod gan y Parch H. John Hughes. Bwriedir cynnal cyfarfod Dathlu'r Ŵyl Nadolig fore dydd Mawrth y Nadolig yn Nant Padarn am 10 o'r gloch dan arweiniad y ddau weinidog. Y swyddogion am 1980 fydd: Llywydd – Y Parch H.J. Hughes; Is-lywyddion – Alun Roberts a Cledwyn Parry. trysorydd – Mrs Enid Mabel Williams; ysgrifennydd – Mrs Dilys Bayliss.

LLONGYFARCHIADAU – I Glenda Ann Hughes, unig ferch Buddug a Kyffin Hughes, 10 Rhes Faenol, ar gael ei SEN yn ysbyty Llandudno. Mae wedi ei phenodi ar staff un o ysbytai'r Cylch. Da iawn yn wir Glenda.

DIOLCH – Dymuna Gloria a Bill (Pitts) ddiolch yn fawr i feddygon a nyrsus ysbyty Eryri, Caernarfon. Hefyd i'w cymdogion, ffrindiau a pherthnasau am yr holl garedigrwydd, anrhegion a chardiau a gafodd Beverley eu merch fach tra bu yn yr ysbyty. Diolch o galon i bawb.

Hefyd, dymuna Mr a Mrs Hugh Hughes, 87 Maes Padarn ddiolch i bawb am eu caredigrwydd at eu merch Carys Wilson tra yn yr ysbyty yn Llundain ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

GONESTRWYDD – Pnawn Gwener 9 Tachwedd rhwng siop Mr Wm Jones a siop Mr Joe Brown collais bwrs. Yn rhyfedd iawn darganfuwyd y pwrs gan Gareth Guck, Llainwen Isaf mewn cae ar Ffordd Tŷ Du y noson honno, ac aeth ag ef i'w dad. Ni fûm i yn agos i'r lle. 'Roedd yr arian wedi diflannu pan gafodd Gareth y pwrs yn y cae er nad oedd ond ychydig iawn ynddo y pnawn hwnnw ond i Gareth y bu'r fantais. Diolch yn fawr i chi Gareth; mae plant gonest yn Llanberis o hyd – diolch am hynny yntê. – *Mrs B. Rees Evans, Min Afon, Llanberis.*

CYMDEITHAS LENYDDOL – Cynhaliwyd Cymdeithas Capeli Capel Coch, Gorffwysfa a Phreswylfa nos Lun, Tachwedd 5, a chafwyd noson hynod o ddiddorol yn gwrando ar Mr Gwynfor Williams, yn sôn am 'Achub ar y Mynydd'. Ychydig ohonom, mae'n debyg, sydd yn sylweddoli gwaith mor ardderchog a brawychus hefyd, y mae Tîm Achub Llanberis yn ei wneud, a'r cwbl yn wirfoddol. Llywydd y noson oedd Mrs Ray Williams.

Nos Lun, Tachwedd 19, cawsom Gyfarfod Amrywiaethol o dan ofal medus Mr Hugh R. Jones. Cymerwyd rhan gan nifer o aelodau'r Gymdeithas, ac enillydd y Llinell Goll oedd Miss Jennie Thomas. Yr oedd pawb wedi mwynhau'r cyfarfod a'r Llywydd oedd Mr Gwynfor Williams. Mr Arwel Jones fydd yn ein diddori yn y Gymdeithas nos Lun, Rhagfyr 3.

BINGO ELUSENGAR – Treuliwyd noson ddifyr yng ngwesty'r Gwynedd ar Dachwedd 16. Cyflwynwyd yr elw o £45 i deulu Plas Pengwaith.

Bwriedir cael noson debyg yn ystod mis Ionawr. Os hoffai rhywun gyfrannu tuag at y gwobrau, byddwn yn ddiolchgar iawn o'u derbyn, tuag **at yr achos.**



*Elen Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Llanberis a Dafydd Wyn Jones, Trigfa, Llangaffo a briodwyd yn Llanberis ar 14 Hydref.*

# CEUNANT

GWAELEDD – Dymunwn adferiad buan i bawb o'r pentre a fu'n wael y mis a aeth heibio.

Gobeithiwn weld Mr William Ellis Owen, Bryn Maen adre'n ôl o'r ysbyty yn fuan.

FFARWELIO – Deallwn fod Mr Williams, Tŷ Isaf yn symud i fyw i'r Waunfawr. Dymunwn bob hapusrwydd i'r teulu yn eu cartref newydd.

# BETHEL

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Nos Iau, Tachwedd 22 cafwyd noson ddifyr iawn yn y Gymdeithas. 'Roedd Mr John Owen, Penrhyn Bach wedi trefnu cwis Beiblaidd ar dâp. Rhannwyd yr aelodau yn ddau dîm: tîm Mrs Fanny Owen a thîm Mr Goronwy Jones. Ar y noson, tîm Mrs Owen a orfu, gyda 153 o farciau yn erbyn 152 gan dîm Mr Jones. Llywyddwyd y noson gan y Parch W.R. Williams.

PWYLLGOR YR EISTEDDFOD – Nos Wener, Tachwedd 16, fe gyfarfu Pwyllgor Bethel Eisteddfod Caernarfon am y tro olaf. Daeth rhai aelodau draw i Westy Tŷ Mawr am gyw iâr a sglodion. Cafwyd noson ddifyr i ddwyn dwy flynedd o waith diwyd i ben.

CLWB Y RHOS – Nos Lun, Tachwedd 12 'roedd noson Clwb y Rhos dan ofal Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd. 'Roedd Ieuan wedi trefnu i Mr Aled Taylor, Y Waunfawr ddod i ddangos sleidiau ac i roi sgwrs ar ei waith fel warden yn y Parc Cenedlaethol. Diolchwyd i Mr Taylor gan Mr Dafydd Williams, Hafod.

YSGOL SUL Y CYSEGR – Yn ystod y mis cynhaliwyd Noson Goffi yn Festri'r Cysegr, gyda'r elw o £45 yn mynd at y biano newydd a brynwyd yn ddiweddar. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

YR URDD – Mae cyfarfodydd yr Urdd eleni yn llwyddiannus iawn ac mae'r gangen yn mynd o nerth i nerth gyda dros 60 o aelodau erbyn hyn. Yn ystod y mis cafwyd noson o ddawnsio gwerin, noson o ffilmiau a sgwrs gan Mr Huw John Hughes ar adar a chwis wedi ei drefnu gan rai o'r aelodau.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos Wener, Tachwedd 16, cynhaliwyd ffair dan nawdd Sefydliad y Merched yn y Neuadd. Agorwyd y noson gan Mrs Wigley a bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng cronfa Blwyddyn Ryngwladol y Plentyn ac Ysgol Feithrin Bethel.

YR YSGOL FEITHRIN – Cyfarfu pwyllgor yr ysgol feithrin yn y Neuadd yn ddiweddar. Trefnwyd Parti Nadolig i'r plant yn y neuadd ddydd Llun, Rhagfyr 17 am 12 o'r gloch.

CYDYMDEIMLO – Yn ystod y mis bu farw Mr W.M. Jones, 24 Cremlyn. Mae'n cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr a Mrs Morlais Williams, Môn Arfon ar enedigaeth eu mab Gethin

I Mr a Mrs Elwyn Roberts, Stad Eryri ar enedigaeth eu mab.

I Mr a Mrs Owen, Cadnant ar enedigaeth merch fach Karen.

DYWEDDIO – Llongyfarchiadau i Carys Parry, Hafod Lleu a Mansel Williams, Rhyd Fadog, Deiniolen ar eu dyweddiad.

**AR WERTH**

Radio car
Ynghyd ag offer ffitio
£10
*Llanberis 736*

YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# PENISARWAUN

EISTEDDFOD Y PENTREF – Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor yn yr Ysgol Gynradd, Tachwedd 20, gyda Mr Leslie Jones yn y gadair. Cafwyd adroddiadau'r pwyllgorau Cerdd, Llên ac Adrodd, a Gwaith Llaw. Mae rhaglen yr Eisteddfod bron iawn yn gyflawn erbyn hyn.

Yn dilyn cynnig gan Tony Elliott, cydsyniodd y pwyllgor i ail-drefnu'r Amodau Cystadlu. Mae'r cystadlaethau hyd at 11 oed yn gyfyngedig i blant sydd yn byw yn nalgylch ysgol gynradd Penisarwaun, ond bydd y cystadlaethau o 11 oed hyd at 18 oed yn agored i unrhyw un sydd yn byw yng nghylch Eco'r Wyddfa; felly dewch i gystadlu!

APÊL AM RODDION: Mae llwyddiant Eisteddfod y Pentref yn dibynnu ar ein cefnogaeth a'n cyfraniad ninnau fel pentrefwyr. Y ffordd orau i ddangos ein cefnogaeth yw trwy gael ein plant a'n pobl ifainc i gystadlu a'u hyfforddi a'u helpu. Mae'n bwysig hefyd i ni fynychu'r Eisteddfod ar y diwrnod. Ond mae'r pyllgor eisiau'ch cymorth chi yn awr. Mae angen arian ar gyfer y gwobrau a'r costau, felly apeliwn am roddion. Bydd y Trysoryddion – Mr Bryngwyn Griffith, 5 Bryntirion a Mrs Elizabeth Hones, 17 Bryntirion yn barod iawn i dderbyn unrhyw roddion. Diolch yn fawr.

NOSON WASAEL – Cofiwch am y Noson Wasael a drefnir gan Bwyllgor Eisteddfod y Pentref yn yr Ysgol Gynradd, Rhagfyr 7, yn dechrau am 7 o'r gloch. Cawn gwmni Mrs Megan Roberts i'n harwain gyda'r carolau. Mynediad 25c i oedolion, 10c i blant. Cofiwch ddod i ymuno yn yr hwyl.

YR YSGOL – Fydd y Nadolig hwn ddim yn llawen i gyd, oherwydd fe benderfynodd Miss A.M. Williams ymddeol ddiwedd y tymor presennol.

Fe ŵyr llawer ohonoch ei bod wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i Ysgol Tan-y-coed, ac yn sicr fe fydd plant bach yr ysgol yn dlotach o golli ei haddfwynder a'i gofal.

A fyddai unrhyw un a garai gydnabod gwasanaeth Miss Williams mor garedig ag anfon ei gyfraniad i Len Jones, Ysgol Tan-y-coed, fel y gallwn gyflwyno rhodd iddi ar ei hymadawiad.

LLONGYFARCHIADAU – calonnog iawn i Miss G. Griffiths, 'Commercial' ar ei phen-blwydd yn 80 oed, Tachwedd 14.

DIOLCH – Dymuna Miss G. Griffiths, 'Commercial' ddilch i bawb am eu caredigrwydd.

CLWB YR HEULWEN

SWPER NADOLIG – Bydd yr aelodau yn cael eu swper Nadolig eleni nos Sadwrn, Rhagfyr 15 yng Nglantraeth, Sir Fôn.

TÂP EISTEDDFOD '79 – Yng nghyfarfod prynhawn dydd Mawrth 20 Tachwedd gwrandawyd ar dâp Eisteddfod '79 a rhoddwyd y te gan Mrs N.M. Pritchard a Mrs Percy Williams.

CYFARFOD NESAF – Ni bydd cyfarfod eto hyd Mawrth 18, 1980.

GWAELEDD – 'Roedd yn ddrwg gennym glywed nad yw Mrs Helen Owen, Bryn Hyfryd yn dda. Brysiwch wella Mrs Owen. Deallwn ei bod wedi bod yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLWN – â theulu'r diweddar Barch W. Roberts, Trefor ar ei farwolaeth. 'Roedd ei wreiddiau yn Nhai Croesion.

EGLWYS SANTES HELEN.

UNDEB Y MAMAU – Fe gafwyd y cyfarfod diwethaf o'r tymor nos Lun 5 Tachwedd. Cafwyd gwasanaeth byr gyda Mrs Mowll yn arwain. Y gŵr gwadd oedd Mr Bryngwyn Griffiths. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar y boblogaeth ym mhlwyf Llanddeiniolen ers y flwyddyn 1851. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Pritchard, Pensarn a diolchwyd iddi gan Mrs A. Evans, Brynrefail.

Cydymdeimlwyd â Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion ar golli ei brawd yng nghyfraith, cyn-reithor Llanaelhaearn.

GWYLIAU YN FFRAINC – Anghofiwyd sôn yn rhifyn mis Hydref bod Mr a Mrs Ernest Green wedi mynd ar eu gwyliau i Ffrainc. Cawsant amser difyr yno gan fynd o un lle i'r llall yn eu car.

**DIOLCH – Dymuna Bronwen Rees Hughes, 1 Bryn Hyfryd, Penisarwaun a Kevin Wyn Jones, Crud yr Awel, Waunfawr ddiolch i bawb am y cyfarchion a'r anrhegion a gawsant ar achlysur eu dyweddiad ar Fedi 25.**

**YN YR YSBYTY – Mae Dewi Jones, Bethel, ŵyr Mrs Jones, 5 Llys-y-gwynt, yn yr ysbyty yn Lerpwl. 'Rydym i gyd yn meddwl amdano ac yn gobeithio y caiff ddod adref cyn bo hir.**

**LLONGYFARCHIADAU – i Wardeiniaid Eglwys St. Helen ar gael eu henwau ar dudalen flaen rhifyn cyfredol 'Y Llan', cylchgrawn yr Eglwys yng Nghymru.**

COFION – Anfonwn ein cofion at Mrs Jennie P. Jones, 13 Bryntirion oedd wedi brifo. 'Rydym yn falch ei bod yn gwella.

## EISTEDDFOD LLANRUG – CANLYNIADAU

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol lwyddiannus iawn yn Llanrug pryd y cadeiriwyd Eurig Wyn o'r Groeslon yn ystod cyfarfod yr hwyr. Gwelwyd talent ifanc y pentref ar ei gorau yn ystod cyfarfod y pnawn a gwledd i'r glust a'r llygad fu'r ddau gyfarfod. Dyma'r buddugwyr:

CERDD Unawd dan 4 oed: 1. Gwion; 2. Gwenan; 3. Nia Gwawr; 4. Elen ac Owain. 4 i 6: 1. Gwydion; 2. Lowri a Rhodri; 3. Lowri Angharad, Bethan, John Elwyn. 6 i 8: 1. Adrian; 2. Iestyn; 3. Bryn. 8 i 10: 1. Olwen; Euros; Emma; 10 i 12: 1. Pamela; Gwyn; 3. Delyth. 12 i 16: 1. Rhian Owen, Llanberis; 2. Nia Thomas, Bryngwran; 3. Elena Williams, Llangwyllog. Dros 60: 1. Mrs. J.M. Jones, Llanrug; 2. Eirlys Thomas, Dolgellau; 3. Gwynfor Baum, Trefor. Unawd Gymraeg: 1. Trefor Wyn Jones, Llangristiolus; 2. Alun Edwards, Llangefni; Maldwyn Parry, Penygroes. Prif Unawd: 1. Lillian Roberts, Trefnant, Dinbych; 2. Alun Edwards, Llangefni; 3. Maldwyn Parry, Penygroes. Unawd Piano dan 12: 1. Gwyn; 2. Manon; 3. Delyth. Unawd Cerdd Dant dan 10: 1. Elen; 2. Olwen; 3. Lowri. Unawd ar unrhyw offeryn heblaw'r piano dan 12: 1. Gwyn; 2. Iwan; 3. Gareth a Rhian. Parti Cerdd Dant dan 12: 1. Parti Safon 2. Parti Unsain dan 12: 1. Parti Safon 2; 2. Parti Gwydion; 3. Parti Sharon. Unawd Cerdd Dant dan 12: 1. Gwyn. Deuawd dan 16: 1. Karen ac Annwen, Llanrug. Unawd ar unrhyw offeryn chwyth dan 19: 1. Manon Williams, Trefor; 2. Arwel Rowlands, Llanrug; 3. Keith Jones, Llanrug. Unawd Cerdd Dant dan 19: 1. Nia Thomas, Bryngwran; 2. Elena Williams, Llangwyllog. Grŵp pop: 1. Merched Ysgol Bryn'refail. Deuawd agored: 1. Emyr a Trefor Wyn Jones, Llangristiolus; 2. Mabon a Humphrey, Waunfawr. Unawd Cerdd Dant agored: 1. Nia Thomas, Bryngwran; 2. William Jones, Bodwrog. Unawd offerynnol agored: 1. Glyn Hughes, Caernarfon; 2. Manon Williams, Trefor; 3. James Jones, Llanrug a Ceiri Williams, Trefor. Côr: 1. Clychau'r Grug, Llanrug.

ARODD dan 4: 1. Nia Griffiths; 2. Gwenan a Nia Gwawr; 3. Owain, Gwion, Elen. 4 i 6: 1. Rhodri; 2. Lowri; 3. Michael; 4. Lowri Angharad; 5. Aled. 6 i 8: 1. Bryn; 2. Rebecca; 3. Adrian a Iestyn. 8 i 10: 1. Elen; 2. Gwawr; 3. Emma. 10 i 12: 1. Louise; 2. Vaughan; 3. Gwyn. 12 i 16: 1. Elena Williams, Llangwyllog; 2. Maldwyn Williams, Bodffordd; 3. Sian Esmor Gruffydd, Caernarfon. Côr dan 16: 1. Côr Adrodd Llanrug. Prif Adroddiad: 1. Maria Pugh, Talybont, Aberystwyth; 2. Helena Parry, Llanrug; 3. Gwenda Williams, Bodffordd.

Telyneg: Dafydd Iwan, Waunfawr. Englyn: Rhys Wyn Parri, Groeslon. Englyn digri: Len Jones, Penisarwaun. Erthygl: 1. Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug; 2. Emlyn Jones, Llanrug. Telegram: 1. Mrs Mary Ll. Williams, Llanrug; 2. Mair Lloyd Huws, Llanrug, 3. Gwen Jones, Llandudno. Stori fer: 1. Marion Iwan, Waunfawr, 2. Nant Jones, Penisarwaun. 2 Stori Arswyd: 1 a 2: Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug; 3. Mair Butler, Tan-y-coed. Gwau agored: 1. Mrs M. Jones, Llanfairpwll; 2. Mrs Bethanne Williams, Llanrug. Coginio agored: 1. Mrs J.M. Jones, Llanrug; 2 a 3: Mrs V. Bernard, Llanrug.

Arlunio agored: 1. Mrs J. Roberts, Waunfawr. 3-dimensiwn agored: 1. Mrs J.G. Jones, Llanrug.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r holl bentrefwyr a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr eisteddfod a chydnabod y rhoddion canlynol a ddaeth i law wedi argraffu rhaglen y dydd: £10: Dr. a Mrs. E. Lloyd Evans, Carwyn. £5: Mr Emlyn Jones, Parc Isa; Di-enw. £2: Mr a Mrs G. Jones Evans, Bro Rhyddallt. £1: Mrs M. Jones, Ogwen; Mrs J.Ll. Williams, 23 Stryd Elinor, Caernarfon; Mrs L. Horman, Venice; Mr D. Horman, Llanfechell; Di-enw; Mrs Beryl Thomas, Gerallt.

Cyflwynwyd y gwobrau canlynol yn ôl i'r pwyllgor: Grŵp pop Ysgol Brynrefail: £3; Mr J.G. Jones, Gorffwysfa: £2.50; Mrs Bethanne Williams, Disgwylfa: 75c; Mrs Megan Jones, Llanfairpwll: £1.25; Mrs Butler, Tan-y-coed: 75c; Mrs J.M. Jones, Gorffwysfa: £4; Ceiri Jones, Trefor a James Jones, Llanrug: £1; Clychau'r Grug: £20; Valmai Bernard: 80c; Mr Emlyn Jones, Parc Isaf: £1.

Bu'r ddwy lywyddes hefyd yn hael eu cyfraniad tuag at y fentr fawr.

**BARDD-LENOR EISTEDDFOD LLANRUG**



Eurig Wyn, yn enedigol o Ddeiniolen, a enillodd y gadair yn Eisteddfod Llanrug. Mae'n byw yn y Groeslon ar hyn o bryd ac ef yw perchennog Siop y Pentan, Caernarfon.


Gwrand'wch!

RADIO CYMRU

yn newydd
ar gynnydd
bob dydd ar

92–95 VHF FM

o ddydd Llun,
Tachwedd 19

YR IAITH AR WAITH

# Llannerch Y Llenor



gan SELWYN GRIFFITH

**Cefais bedair marathon o eisteddfod yn ystod y mis, ond rhaid cyfaddef i mi fwynhau fy hun ymhob un ohonynt. Mi fydd 'na atgofion melys am bob un yn mynnu aros yn y cof.**

'Roedd 'Steddfod Llansannan yn dechrau am naw o'r gloch fore Sadwrn, ac aeth ymlaen tan ddau o'r gloch fore Sul. 'Rwy'n dal i flasu'r lobs-sgows a gefais i ginio yno. Mae'n hyfryd cael lobs-sgows mewn 'steddfod weithia'.

Bu cystadlu brwd yn Steddfod Llanrhaeadr-ym-Mochnant hefyd. Cychwynnais yn gynnar dros ffordd droellog y Berwyn, ond oherwydd y tywydd stormus ni fentrais adre y ffordd honno, ond yn hytrach euthum drwy Groesoswallt ac adre ar hyd yr A5. Wrth ddod dros Pen-y-Pass meddyliais y byddai'r gwynt a'r glaw cry' yn fy chwythu i ddyfnderoedd Dyffryn Mymbyr.'Ydi stormydd yn waeth yn oriau mân y bore d'udwch pan fydd rhywun ar ei ben ei hun mewn car yn unigrwydd y mynyddoedd?

Yna, eisteddfod lwyddiannus Llanaelhaearn. Yn rhyfedd iawn rhoddais y gadair i'r un bardd yn Llanrhaeadr a Llanaelhaearn. Mr John Griffith Jones o Abergele oedd y brawd lwcus. Fe enillodd ar y delyneg eleni ym Mhrifwyl Caernarfon hefyd. Brodor o Nanhoron yw Mr Jones, gwyddonydd wrth ei alwedigaeth, ac yn naturiol iawn mae o'n dipyn o fêts hefo fi rwan ar ôl i mi roi dwy gadair o fewn wythnos iddo.

Dychrynais am fy mywyd pan dderbyniais 45 o straeon byrion o Eisteddfod Harlech. Cystadleuaeth Medal y Llenor yno, oedd cyfansoddi tair stori fer, ac fe ymgeisiodd pymtheg. Dyna waith darllen, ac ychwanegiad helaeth at fy mil trydan hefyd. Dyma un o'r parodïau a dderbyniais yn 'Steddfod Harlech. 'Does dim angen nodi'r gerdd wreiddiol.

**Pan fydda i'n fain a siapus,**
**Cans hynny yw fy nod**
**A'r holl newynu drosodd**
**A phawb yn canu 'nghlod**
**Mi brynaf i siwt nofio**
**I fynd i lan y môr**
**Ac yno caf dorheulo**
**A'm hips yn 'thirty four.'**

**Pan fydda i'n fain a siapus**
**A'm 'figure' i mor neis**
**Heb fwyta'r un bytaten**
**Na chyffwrdd pwdin reis**
**Bydd gobaith im bryd hynny**
**I lawr ar lan y môr**
**Gael winc gan fachgen handi**
**A'm hips yn 'thirty four.'**

**Pan fyddai'n fain a siapus,**
**Fel 'Twiggy' wyddoch chi,**
**Caf innau roi fy enw**
**Am swydd â'r BBC,**
**Bydd gobaith im bryd hynny**
**Mewn tre ar lan y môr**
**Gael trio cystadleuaeth**
**A'm hips yn 'thirty four.'**

**Oblegid mi gaf yno**
**Ar ffrynt y promenâd**
**Uno â'r genod eraill**
**Heb ofni cael sarhad**
**A chanaf gydag angerdd**
**I lawr ar lan y môr**
**Fod dyddiau slimio drosodd**
**A'm hips yn 'thirty four.'**

Sôn am barodïo. Un o'r tasgau yn Ymryson y Beirdd a drefnir gan *Barddas* yw parodïo englyn. Tasg anodd fe dybiwn i. Dim ond am un y gwn i – sef parodi ar englyn adnabyddus R. Williams Parry i Neuadd Mynytho. Dyma'r parodi:

**TEISAN BRIODAS**

**Adeiladwaith dwy ledi – nid cerrig**
**Ond 'currants' sydd ynddi,**
**Ernes yw'r hufen arni,**
**Cawres ddewr a'i crasodd hi.**

Ac i orffen am y tro ar nodyn parodïol. Y wobr gyntaf a gefais i 'rioed mewn steddfod oedd y wobr am wneud parodi ar 'Cyfarch y Llinos', Eifion Wyn, yn Steddfod Ieuenctid Sir Gaernarfon – (ia gwaetha'r modd) sawl blwyddyn yn ôl bellach. Dyma'r gerdd:

**CYFARCH Y CATHOD**

**Mewiai giaman yn gariadus**
**Neithiwr ar ben wal yr ardd,**
**Giaman arall rhwng y rhesi**
**Ddaeth i ddrysu cwsg y bardd;**
**Beth mor flin â chwynion cathod**
**Pan yn hedd y gwely clyd?**
**Beth mor flêr ag ôl eu crafu**
**Pan fo'r ardd yn flodau'i gyd?**

**Ewch, o feirdd, i wrando'r cathod**
**Ond na thorrwch ar eu stŵr,**
**Peidiwch drysu'r hwyl ddiniwed**
**Drwy eu gwlychu gyda dŵr.**
**Ffrindiau bach, pe baech yn gwybod**
**Fel gall cathod garu'r gwyll,**
**Gwn na thaflech garreg atynt**
**Gwn na dd'wedech eiriau hyll.**

'Rwy'n siŵr fod gan rai ohonoch chi, ddarllenwyr yr *Eco*, barodi hefyd. Anfonwch rai yma da chi, gan fod y fasged yn wag.

Hwyl, Selwyn.




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**CLED'S SOFT DRINKS**

(CLEDWYN P. JONES)

**2 Dolafon, Cwm-y-Glo**

corona

Ffôn: Padarn 444

*AR GARREG EICH DRWS!*


# CÔR MERCHE

## gan MORF



*Côr Merched Llanberis gyda'r diweddar Mr Wi*
*is-arweinydd, y diweddar D. Jeffrey Owen, L*
*L*

Ffurfiwyd y Côr Merched ym mis Mehefin 1946.

Yr arweinydd oedd Mr William James, B.A., Mus.Bac., a'r is-arweinydd Mr D. Jeffrey Owen, LTSC. Chwith meddwl fod y ddau erbyn hyn wedi eu galw at eu gwobr.

Nid anghofiwn ni, aelodau'r côr fyth mor amyneddgar y bu'r ddau yn ein hyfforddi i geisio meistroli yr anawsterau cerddorol y bu raid i ni eu concro pan yn dysgu y llu darnau anodd iawn at y gwahanol eisteddfodau, a mawr yw ein dyled iddynt am yr addysg a gawsom ganddynt.

Yr oedd yr Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal ym Mae Colwyn yn 1947, ac er mai ieuanc oeddym fel côr, penderfynwyd ymgeisio yno, er cael profiad, ac wrth gwrs, feirniadaeth. Buom yn gweithio'n galed iawn ar un o'r darnau, sef y 'Fairy Glen' – gwaith anodd iawn. Fodd bynnag, mentro wnaethom. Yr oedd pum côr yn cystadlu, a daethom yn drydydd ac yn hollol fodlon ar ein safle gan mai hon oedd ein hymdrech gyntaf.

Ym mis Mai 1948 cystadlu yn Eisteddfod Lewis's Lerpwl – dim ond dau gôr yno, a daeth y lle blaenaf i gôr Llanberis, gyda'r sylwadau hyn gan y beirniaid – *sturdy, gripping singing with a thrilling climax*.

Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr oedd nesaf, ac un ar ddeg o gorau yn cystadlu, a chôr Llanberis yn dod yn ail gyda chanmoliaeth fawr.

Gorffennaf 1948 – Eisteddfod y Sir, Caernarfon – pum côr, a Llanberis yn fuddugwyr.

Sulgwyn 1949 – Eisteddfod Môn yn Llanerchymedd – pedwar côr yn cystadlu, a Llanberis yn cael y wobr gyda'r sylwadau hyn – dyma ni mewn byd arall gyda'r côr hwn – byd prydferth a'r côr o dan lywodraeth rhagorol – y sopranos fel clychau arian a'r canu yn berffeithrwydd o lanweithdra.

Yn 1949 hefyd mentro i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, a'r braw o wybod fod pedwar ar bymtheg o gorau yn cystadlu. Fodd bynnag, cawsom safle anrhydeddus iawn sef bod yn bumed. Fel hyn yr ysgrifennwyd gan un gohebydd – *To be among the first six successful choirs in a competition of this category, and high standard is something which every choir should be mighty proud of.*

Wyth côr yn cystadlu yn Eisteddfod Dolgellau, a ninnau yn bumed. Ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Môn a gynhaliwyd ym Mrynsiencyn. Buom yn fuddugol yn Eisteddfod Powys hefyd a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont Fawr ac mae'n debyg nad anghofia rhai ohonom y daith yno dros y Berwyn.

Eisteddfod Llangollen 1950 – pumed oedd ein safle y tro hwn eto, a hefyd yn yr un Eisteddfod yn 1951.

Awst 1951 Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Pedwar côr yn cystadlu a'r buddugol oedd Côr Merched Llanberis. Cafwyd cwpan yno hefyd i'w dal am flwyddyn.

Ym Mehefin 1952 cystadlu unwaith eto yn Eisteddfod Lewis's, a dod yn fuddugwyr allan o bump o gorau.

Gorffennaf 1952. Eisteddfod Llangollen – pymtheg o gorau, ac fe ryfeddwch glywed mai pumed oeddym eto.

Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1952 – Yr oedd saith côr wedi anfon eu henwau i gystadlu ond dim ond tri a ymddangosodd ar y llwyfan. Dyma'r dyfarniad yno: 1) Caernarfon; 2) Llanberis; 3) Caerffili.

Ym mis Medi 1952, cystadlu yn Eisteddfod Butlin Pwllheli Pum côr yn cystadlu, a rhoddwyd y lle blaenaf i gôr Corwen, a Llanberis yn ail.

Bu'r côr yn cystadlu yn Eisteddfod Falmouth Road, Llundain, a daethant allan yn ail da i gôr Orpington, Swydd Gaint. Dyma ran o feirniadaeth y côr – *a fine choir under good control. Rich voices*

# D LLANBERIS
## DD EVANS



am James, B.A., Mus,Bac., yr arweinydd yn sefyll, a'r C yn eistedd. Y llun trwy law Mrs Marie Pritchard, nberis.

*blending effectively without a single sign of forced tone.*

Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1953. Pum ôr yn cystadlu, sef Mid-Rhondda, Caernarfon, Corwen, Brunswick (Yr Almaen) a Llanberis.

Dyfarnwyd côr Brunswick yn orau, a Llanberis yn ail.

Yn Eisteddfod Butlins ym Medi 1953 ennill y wobr gyntaf yn y prynhawn ac yn y prawf terfynol yn yr hwyr yn cystadlu yn erbyn Côr Meibion y Penrhyn a chôr cymysg Birkenhead a dod allan yn fuddugwyr, ac ennill y gwpan. Y beirniaid yno oedd Gwilym Gwalchmai, a Kenneth Roberton Glasgow – sef mab yr enwog Sir Hugh Roberton.

Dyna i chwi fraslun o'r eisteddfodau y bu'r côr yn cystadlu ynddynt, ond fe sylwa'r côr nad wyf wedi crybwyll o gwbl Eisteddfod Caerffili hyd yn hyn. Saith côr yn cystadlu yno. Aeth y wobr gyntaf i Gôr Caerffili, a'r ail wobr i gôr Llanberis.

Wel, os cafodd côr erioed noson lawen dyma'r noson i chwi – noson cyn Eisteddfod Caerffili. Roeddym yn cysgu mewn ysgol, a rhai ohonom wedi blino ar y daith i lawr ac wedi mynd i'n gwelyau yn gymharol gynnar, a'r rhai eraill wedi mynd allan. Ceisio cysgu, ond yn bryderus braidd gan nad oedd y gweddill ohonom wedi cyrraedd i'r ysgol a hithau'n hwyrhau. Tua hanner awr wedi hanner nos dyma hwy'n cyrraedd – wedi bod mewn noson lawen yng nghastell Caerffili ac wedi cael eu galw i roi 'eitem' ar y llwyfan.

Yr ydych wedi dyfalu erbyn hyn, mae'n debyg, pwy oeddynt – Madam Katie Jones, Mrs Aled Owen ac eraill.

Wrth ein gweld ni yn ein gwelyau daeth y syniad i Madam Katie ein bod yn edrych fel pe baem mewn ysbyty, a dyma hi ar unwaith yn cymryd y gwaith o fod yn Matron a dechrau arnom fel *patients* iddi. Gadawaf chwi yn y fan yna i ddychmygu sut le oedd yno wedyn. Wedi'r hwyl yna dyma geisio cysgu wedyn, ond dyma gynnwrf – yr oedd efrydwyr (dynion) yn cysgu mewn rhan arall o'r ysgol a daethant atom i gynnal noson lawen wedyn – nes oedd hi tua phedwar o'r gloch y bore. Os carai rhywun gael 'chwaneg o fanylion am y noson, fe'u cânt gan Matron Katie Jones.

**Ychydig nodiadau ar y daith yn ôl o Ben-y-bont ar Ogwr.**

Cychwyn tua hanner awr wedi wyth y nos. Canu'r holl ffordd rhwng Pen-y-bont a Rhydaman. I lawr o'r bws i chwilio am gwpaned o de – dim te ond pop. Ymlaen trwy Lanbedr Pont Steffan. Ceisio cysgu ond dim siawns gwneud. Cyrraedd promenâd Aberystwyth am dri o'r gloch y bore. Dim te yno chwaith, dim ond sŵn tonnau yn torri ar y traeth – a glaw mân. Ymlaen wedyn trwy Fachynlleth, Dolgellau, Trawsfynydd a'r bws yn aros yn sydyn a'r gyrrwr yn neidio o'i gaban yn sydyn i geisio meistroli 'Huwcyn Cwsg'. Cychwyn eilwaith a'r llwyth yn boenus erbyn hyn. Rhyw wraig yn meddwl yn uchel – "Tomos druan yn gorfod gwneud brecwast iddo'i hun – fy ngwas aur i." Y wawr yn torri dros Eryri a chyn bo hir cyrraedd y Llan. Gwŷr a gwragedd a phlant a baril organ yn ein croesawu. Llongyfarch a chofleidio.

Yn ogystal â chystadlu buom yn cynnal cyngherddau ar hyd a lled y wlad – Corwen, Bodffordd, Deiniolen, Porthmadog, Porthaethwy, Llanberis (ddwywaith neu dair) a hefyd cael yr anrhydedd o wasanaethu mewn *Celebrity Concert* yng nghapel y Tabernacl Bangor, gyda'r enwogion hyn – (soprano) Marion Lowe (Sadler's Wells); (bass-bariton) John Dethick (Covent Garden); (tenor) Richie Thomas, Penmachno. Cyfeilydd – Ffrancon Thomas. Buom yn perfformio 'Stabat Matter' hefyd yng Nghapel Coch.

Buom yn darlledu gryn ddwsin o weithiau hefyd – mewn *Overseas Programmes* gan amlaf, ond fe gawsom gyfle rhyw unwaith neu ddwy i'n clywed ni ein hunain ar yr *Home Service*.

Fe rydd yr adroddiad hwn ryw syniad bach i chwi am weithgareddau'r côr, a siomedigaeth fawr i ni oedd pan gawsom y newydd gan Mr William James ei fod yn mynd i Faesteg i fyw, ac felly yn y flwyddyn 1954 daeth diwedd y Côr Merched.

Melys yr erys yr atgofion.



*23 Woking Road,*
*Parkstone, Poole,*
*Dorset, BH140BZ.*

*Annwyl Gyfaill,*

*Derbyniais* **Eco'r Wyddfa** *heddiw gan fy mam sydd yn byw yn y Fachwen. Byddaf yn ei gael bob mis.*

*Gwelais lun ynddo o dîm criced ysgol Brynrefail gynt. Ac fe adnabûm bob un. 'Rwyf yn sicr mai 1937 neu 1938 oedd y flwyddyn.*

*Mae gennyf i ddau lun: un o'r tîm 'P.T.' o dan ofal Mr Powell Jones a oedd yn athro daearyddiaeth a chwaraeon. Bu'n chwarae pêl-droed i dîm Caernarfon. 'Roedd yn 'Major' yn y 'Territorials', a chafodd ei alw i'r fyddin yn 1939. Mae rhai o'r bechgyn yn y tîm criced yn y llun tîm 'P.T.'*

*Y llun arall yw tîm pêl-droed ysgol Brynrefail o dan ofal Mr Glyn Jones (Jones Chem fel y'i gelwid gennym).*

*'Roedd ef yn yr 'Home Guard' gyda'r prifathro Mr. Thomas.*

*Nid wyf yn cofio enwau ond tri o'r bechgyn sef, Cledwyn P. Jones (canol, rhes ôl), Len Parry (sefyll wrth ochr Mr Powell Jones) a Bertie o Gaernarfon (trydydd o'r chwith), a minnau'n eistedd ar y chwith.*

*Enwau rhai o'r tîm pêl-droed a gofiaf yw: Cledwyn P. Jones, Rasmus Williams, Ifan Aled, ac wrth ochr Ifan ar y chwith, mab hynaf y prifathro. Gareth Williams, Gwyndaf Parry, Bertie P. Jones a minnau'n eistedd. H. Berwyn Jones, Eurwyn Jones, John C. Roberts.*

*Pob llwyddiant i'r papur. Cofion at bawb.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Wilfred A. Jones*
*(gynt o'r Fachwen)*



# BABI'R HIDRO

Ganwyd Baban yn ein pentre,
Perffaith gread Duw y Tad.
Yn ei law, agoriad perffaith
Allwedd Cariad, erfyn mad.
Cariad gwiw yw GRYM ei fywyd,
Hwn rydd NERTHOEDD in yn rhad.
Cawn adfywiad trwy ei ALLU,
EGNI hwn fydd ein rhyddhad.

Ganwyd Baban yn ein pentre,
Yn hen bentre bach Llanbêr,
Dros yr Wyddfa y daeth golau,
Disglair, tanbaid olau sêr.
Nid oedd hwter yn y chwarel,
Ni chaed pader-odlau pêr,
Nid oedd gosber yn yr awel
Pan ddaeth PWER Duw o'i Nêr.

Ganwyd Baban yn ein pentre,
Llawn pob llety yn y fro.
Pawb â'i radio a'i deledu
'N prysur hwylio dan bob to.
Nid oedd cyffro am y seren,
Nid oedd cyffro arno Fo,
Nid oedd pyncio carol iddo
Pan ddaeth Baban Duw i'n bro.

Ganwyd Baban yn ein pentre,
A oes trysor iddo'n bod?
Cans trwy'r gofod nid oedd seren
Yn disgleirio heb roi clod.
Wele hynod wyrth y Duwdod,
'Mab' y Drindod wedi dod.
I Lanbêr y daeth y Baban,
Dyma anrheg Duw a'i nod.

*Dilys Baylis*
*Nadolig 1979*

# llyfrau

## LAWNSIO CYFRES Y FODRWY

Bu cryn bwyso ar y Cyngor Llyfrau ers tro i drefnu cyflenwad o lyfrau poblogaidd, rhad i apelio at y nifer fawr o Gymry Cymraeg nad ydynt yn darllen llyfrau Cymraeg ar hyn o bryd. Pwyswyd fwy fyth arnom yn sgîl llwyddiant y papurau bro ar hyd a lled Cymru.

Mewn ymateb i'r her, fe lansiwyd cyfres newydd o lyfrau poblogaidd yn Gymraeg ddydd Iau, Hydref 25. Cyfres o nofelau serch, ysgafn, ffwrdd â hi yw'r rhain, wedi'u seilio ar y gyfres Saesneg enwog a gyhoeddir gan Gwmni *Mills & Boon*. Enw'r gyfres fydd **Cyfres y Fodrwy** a'r pedwar teitl cyntaf i ymddangos fydd:

**Dychwel Haf; Y Dyn Wrth y Llyw; Yr Olwg Gyntaf a Cof Creulon**

Un arbrawf yw hwn – ymhlith nifer o rai cyffelyb, gobeithio – i weld a ellir ehangu cylch darllenwyr Cymraeg. Dylai'r llyfrau apelio at bawb sy'n hoffi darllen straeon serch mewn cylchgronau merched neu sy'n benthyg llyfrau tebyg i rai *Mills & Boon* o'u llyfrgelloedd lleol. Nofelau i'w darllen unwaith a'u taflu wedyn ydynt. Nofelau clawr papur, rhad – yn costio dim ond **50c.** yr un. Cyhoeddwyd dau gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

Os bydd yr arbrawf yn llwyddiant gobeithir trefnu nifer o gyfresi eraill dros y blynyddoedd nesaf, yn straeon ditectif, straeon iasoer, straeon cowboi ac yn y blaen. Mae hyn yn unol â pholisi'r Cyngor Llyfrau o geisio hybu deunydd darllen poblogaidd yn Gymraeg.

## HWYL CALAN GAEAF YN YSGOL LLANRUG



*Gwrachod bach del, 'te!*



*Ond am y rhain ...!*



*Hen wragedd a ffyn!*


**WIL a VAL GUY**

**TREFLYN STORES**

BETHEL

**Bwydydd, Melysion, Teganau a Diodydd ac yn awr dewis o Ddillad Plant**

**Y FELINHELI 670 237**


# CWM-Y-GLO

YN YR YSBYTY – Dymunwn adferiad buan i Mr Pritchard, 23 Dolafon, sydd yn ysbyty'r Eryri yng Nghaernarfon.

O'R YSBYTY – Croeso adref i Mrs Glenys Prichard, Mrs M.O. Jones, 21 Dolafon, ac hefyd Mr R. Hughes, 10 Dolafon, a phawb arall a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

MARW – Yn ei gartref, 'Mona' ar y 9fed o Dachwedd ar ôl dioddef afiechyd blin yn dawel a dirwgnach bu farw Mr Arthur Vaughan Williams yn 64 mlwydd oed. Bu gwasanaeth preifat yn ei gartref y dydd Mawrth dilynol, ac yn dilyn yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch W.O. Roberts, Llanrug.

Daeth llawer o'i gydweithwyr yn Swyddfa'r Dref i'r gwasanaeth yn yr amlosgfa, i dalu teyrnged iddo. 'Roedd yn gymeriad hynod gymwynasgar a charedig, a rhoddodd ei wasanaeth yn ddi-fwlch am flynyddoedd i amrywiol weithgareddau'r ardal.

Mewn gwasanaeth yng nghapel y Tabernacl nos Sul, talwyd teyrnged iddo ar ran yr Eglwys gan Mr Llew Hughes, diacon. Mae ein cydymdeimlad llwyraf ni at ei briod, Mrs Blodwen Williams, ei ferch Irene, a'r mab yng nghyfraith Stephen, Mrs Darils, Cyffordd Llandudno ei chwaer, a'i frawd Mr Williams, Llanfaglan.

**Dioddefodd yn ddewr i'r diwedd – a gwên**
**Er ei lesgedd a'i waeledd.**
**Caiff allwedd i'w etifedd**
**Gan ei Dduw, i fyw mewn hedd.**

**Haelionus ei gymwynas – i ddyn**
**A Duw a'r deyrnas**
**Am ei waith i gymdeithas**
**Ar ddiwedd dydd – wel da wâs.**

**Cydymdeimlad – Dydd Llun, 29 Hydref bu farw Mr Leslie Jones, 38 Station Rd, Tal-y-sarn. Fel y gŵyr llawer, yr oedd Mr Jones yn frawd i Mr H.G. Jones, Bod-Elan, Cwm-y-glo. Derbynied Mr a Mrs Jones, a'r teulu oll ein cydymdeimlad llwyraf.**

**Trwy gyfrwng yr Eco, dymuna Mr a Mrs Jones, Bod Elan, Mrs Nelw Jones, a Geraint, 38 Station Rd., ddiolch i bawb am y cardiau a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth.**

**YR URDD – Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr Ysgol i drafod cychwyn Adran Bentref yr Urdd i blant oed cynradd Brynrefail a Chwm-y-glo.**

**Dewiswyd y swyddogion canlynol am 1979–80: Llywydd y Gangen: Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed; Ysgrifennydd: Mrs Ifanwy Jones, Min-y-nant, Trysorydd: Mrs Eurwyn Jones, Yr Ysgol Gynradd.**

**Agorwyd y tymor gyda ffilm yn dangos rhai o weithgareddau'r Urdd gyda'r Trefnydd Sirol. Mr Dafydd Owen yn bresennol. Trefnwyd rhaglen amrywiol am y tymor, gyda'r ail gyfarfod nos Iau, Tachwedd 22, yng ngofal Mrs Moira Ellis Brynrefail, a drefnodd gwis i'r plant. Gobeithir hefyd drefnu tîm pêl-droed dan ofal Mr Gwilym Williams.**

**Gobeithio y bydd y gangen yn mynd o nerth i nerth.**

**NOSON GOFFI – Nos Fercher, Tachwedd 7 cynhaliwyd Noson Goffi yn yr ysgol gan Bwyllgor Cwm-y-glo i'r Ymgyrch Ymchwilio dros y Plentyn Efrydd.**

**Cafwyd elw o £90.00 ac y mae'r pwyllgor yn dymuno diolch i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth hael. Enillwyd y raffl gan: Nia, Dolafon; Rhian Wyn Jones, Brynrefail; Eunice Yesson, Cwm-y-glo; Mr Yesson, Runcorn; Ralph, Erw Fair, Cwm-y-glo ac Alwyn Thomas Carreg-y-fran.**

**PÊL-DROED – Gêm gyfeillgar o dan 14, Sadwrn Tachwedd 3 – Y Waunfawr 2 – Cwm-y-glo 3. Dewi Morris, Gwyn Morris a Kevin Owen yn rhwydo dros Cwm.**

**Cwpan Ferodo, o dan 16, Sadwrn 10: Y Waunfawr 3 – Cwm-y-glo 3. Neil Rowlands, Gethin Jones a Kevin Owen yn rhwydo dros Cwm. Hei lwc i'r bechgyn yn y gwpan eleni.**

**Oherwydd nad oes posib' chwarae gemau pêl-droed ar y Cae Chwarae, fe fydd tîm Cwm yn chwarae eu gemau cartref ar gae Ddôl y Goeden, Llanberis. Diolch i Lanbêr am eu parodrwydd i'n cynorthwyo.**

**Nos Lun, Rhagfyr 10 cynhelir Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd. Agorir y drysau am hanner awr wedi saith, a bydd yno raffl a stondinau prynu a gwerthu. Yr elw at gostau y tîm pêl-droed.**

**Y GANOLFAN GYMDEITHASOL – Cyfarfod Cyhoeddus, nos Iau 13 Rhagfyr am 7 o'r gloch. Fe'i cynhelir i ethol un cynrychiolydd yn aelod o'r pwyllgor rheoli, a dymunir i'r mudiadau anfon enw eu cynrychiolydd i ysgrifennydd y pwyllgor gwaith – Mrs Avril A. Jones, Hafodty. Cwm-y-glo erbyn Rhagfyr 10 fan bellaf os gwelwch yn dda.**

**Croeso cynnes i bawb gefnogi'r fenter newydd.**

UNDEB Y MAMAU – Yng nghyfarfod blynyddol Undeb y Mamau a gynhaliwyd yn Y Rheithordy, Llanrug yn ddiweddar etholwyd Mrs J.E. Watkins, Dolwen yn llywydd y Gangen, Mrs L. Orritt, Morannedd, yn is-ysgrifennydd, Mrs T. Owen, Isfryn yn drysorydd a Mrs H. Roberts, Bod Gwynedd yn is-drysorydd a phenodwyd Mrs M.E. Hughes, Craig y Don a Mrs T. Roberts, Bod Gwilym yn ymwelwyr.


AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

*Eric Morris*



**Bwsiau Arfon**
**LLANRUG**

**FFÔN WAUNFAWR 254**

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## BRYNREFAIL

### EISTEDDFOD LWYDDIANNUS

Y beirniaid oedd: Cerdd – Mrs Glenys Griffith, Llandwrog; Adrodd – Mrs Wenna Williams, Llanfairpwll; Llên – Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Bangor; Crefft ac Arlunio – Mrs C. Thomas, Ysgol Syr Hugh Owen; Dawnsio Gwerin – Mrs Beth Williams, Llanrug; Cyfeilydd – Mr Gwyndaf Parry, Ysgol Brynrefail; Llywydd – Mr Gwenlyn Parry, Caerdydd; Arweinyddion – Trystan Larsen; John Flint; Gareth Roberts; Gwynedd Williams; Shan Williams; Eira Wyn Jones; Rhian Parry; Ian Kevin Owen; Emyr Griffith; Dr. Prys Morgan Jones; Trefnydd y llwyfan – Mr D.W. Evans; Cadw marciau – Mr R.T. Jones; Mr S. Allsupp; Collette Roberts; Yvonne Hughes; Tracey Merchant; Cynorthwyo'r ysgrifennydd – Iona Williams; Sera Williams.

Eleni eto cafwyd eisteddfod lwyddiannus yn yr ysgol, gyda chyfarfodydd bywiog y prynhawn a'r nos.

*Gwyrfai* oedd ar y brig eleni, am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, a llongyfarchiadau i'r Capteiniaid, John Flint a Iola Griffith am eu harwain yn llwyddiannus.

Dyma'r marciau terfynol: Gwyrfai 241; Eilian 185; Elidir 184; Eryri 157.



*Y Côr deulais buddugol — Gwyrfai*



*Dyma lun o bob un a enillodd wobr gyntaf*



*Rhian Owen a Rhiannon Pritchard oedd y ddwy a enillodd y mwyafrif o farciau yn eu hadrannau*



*Elidir oedd enillwyr y gystadleuaeth i bartion Cerdd Dant*
*Bwriadwn ddangos rhagor o luniau o Eisteddfod yr ysgol yn ein rhifyn nesaf.*

### CRONFA CAMBODIA

Yn ystod y mis hwn gwnaethpwyd ymdrech fawr ar ran yr ysgol i gasglu arian ar gyfer yr achos yng Nghambodia. Bu llawer o gasgliadau ar dro, nifer wedi eu trefnu gan ferched 3A, gyda chymorth Mrs Jean Pleming. Bu rhai yn nofio, eraill yn cynnal casgliad deuddydd yn yr ysgol, a 15 o ferched o'r dosbarth cyntaf yn eistedd heb siarad am hanner awr, mewn 'sponsored silence'. Casglodd nifer o unigolion gryn swm o arian yn y pentrefi cyfagos hefyd, ac mae'r ysgol yn diolch i bawb a gyfrannodd at y gronfa. Mae siec wedi cael ei gyrru'n barod oherwydd yr argyfwng sydd yng Nghambodia, ond nid yw'r gronfa wedi ei chau. Gan fod cymaint o syniadau a brwdfrydedd ymysg y plant i gasglu rhagor o arian, nid dyma ddiwedd hanes cronfa Cambodia. Casglwyd £161.80 o arian yn barod.

### WYTHNOS O'R YSGOL

Mae rhai aelodau o'r chweched dosbarth wedi mynd ar gwrs daearyddiaeth yn ystod yr wythnos hon. Cwrs wythnos Lefel 'A' ydyw, ac mae'r disgyblion yn aros ym Mhlas Tan-y-Bwlch, ger Maentwrog.

### TRIP I BOLTON

Ymwelodd disgyblion dosbarth Saesneg sy'n astudio ar gyfer Lefel 'A', â Bolton ddydd Sadwrn, Tachwedd 17. Mynd i weld 'Much ado about nothing' un o ddramâu Shakespeare yn Theatr Octagon, Bolton oeddynt. Trefnwyd y trip gan Mrs Manning, pennaeth yr adran Saesneg, a Mr Thomas y prifathro, a chafwyd diwrnod difyr dros ben.

### MYNYDDA

Trefnwyd dwy daith fynydda y mis hwn gan glwb mynydda yr ysgol. Aethant i Carneddau ar ddechrau'r mis, ac yna bythefnos yn ddiweddarach ymwelasant â Moel Siabod. Ond garw iawn oedd y tywydd, a rhaid oedd troi'n ôl hanner ffordd. Gwell lwc tro nesa'!

### DISCO

Cynhaliwyd disco llwyddiannus unwaith eto yn Neuadd Ysgol Brynrefail ar nos Wener, Tachwedd 16. Gwnaethpwyd dros £100 o elw tuag at Gronfa'r Ysgol.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Rhian C. Parry am ennill cadair yr eisteddfod, gan bawb o'r 6ed dosbarth. Llongyfarchiadau hefyd i Ruth Lennon, Kathy Williams a Gwennan Griffith a ddaeth yn agos iawn. Pob lwc yn y dyfodol.

### KELLOGS NATIONAL EXHIBITION OF CHILDREN'S ART 1979

Y mae'r Arddangosfa ar hyn o bryd yn Llundain. Yr unig waith gan ddisgybl o Gymru, yn yr Adran 12-14 oed, yw gwaith Helena Williams, Bethel. Tipyn o gamp Helena. Dalier ati!

## ANRHEGU

Yn eu cyfarfod nos Lun, Tachwedd 19 penderfynodd Rheolwyr Ysgol Brynrefail anrhegu'r disgyblion canlynol: Gwobr Mrs Rowlands i'r ferch a gafodd y canlyniadau gorau ac a aeth ymlaen i wneud cwrs Gradd 1 – Anita Jones, Cae Coch, Brynrefail – hi oedd Capten y Genethod y llynedd hefyd. Rhannwyd Gwobr Dr Lloyd Williams i'r bachgen a gafodd y canlyniadau gorau ac a aeth i Brifysgol rhwng pedwar bachgen a gafodd ganlyniadau canmoladwy iawn. Gan nad oedd bron ddim i'w ddewis rhyngddynt teimlwyd mai tecach fyddai rhannu'r wobr a'r anrhydedd: Euron Griffith, Crud yr Awel, Bethel; Dewi Wyn Williams, Bro Hedd, Seion (Capten y Bechgyn y llynedd); Bryn Jones 60 Dôl Elidir, Llanberis. Gwobr Mr I.L. James (cyn-Brifathro'r Ysgol 1956-1973) mewn Mathemateg i Christopher Cheers, Mur Moch, Cwm-y-glo am ennill gradd A yn y Papur Ychwanegol mewn Mathemateg ar ddiwedd ei Flwyddyn Gyntaf yn y 6ed. O Gronfa David a Jane Jones ac o Gronfa Mrs Mary Parry rhoddwyd gwobrau i'r canlynol: Canlyniadau safon 'O' – Philippa Colborn, Maes Hyfryd, Llanrug; Iola Griffith, Cynfi, Deiniolen; Susan Jones, Tanhafodlas, Ceunant; Mair Eluned Morgan, Llwyn Bedw, Bethel; Anwen Owen, 8 York Terrace, Llanberis; Wendy Roberts, Gwylfa, Llanrug; Lindsay Spry, Tanyffynnon, Llanberis; Kathlyn Williams, 77 Pentre Helen, Deiniolen; Enid Wynne, Llety Llwyd, Tanycoed; Gerald Griffith, Pant Tirion, Llanrug; David Williams, 8 Cae Rhos, Seion; Glyn Jones, 15 Stad Eryri, Bethel. Am ganlyniadau TAU – Gwobr arbennig i Carolyn Owen, Tegfryn, Llanrug am ganlyniadau arbennig iawn yn yr arholiad TAU. Enillodd Carolyn Radd 1 mewn pum pwnc. Rhoddwyd gwobr hefyd i Johanna Barnes, Tŷ Newydd, Ceunant; Gwyneth Bell, Markeaton, Bethel; Carys Wyn Jones, Arddol, Bethel; Linda Wyn Roberts, 2 Llys Alun, Penisarwaun; Arwel Rowlands, Llys Forgan, Llanrug.

## YSGOL DOLBADARN

Yn ddiweddar bu rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn casglu ysbwriel ar hyd y pentref. Cawsant groeso mawr gan yr oedolion a staff Plas Pengwaith.

Casglwyd y swm o £50 yn yr ysgol er budd plant anffodus Cambodia. Dymuna'r prifathro ddatgan ei werthfawrogiad i bawb am eu caredigrwydd.

Mewn cyngerdd a gynhaliwyd yng Nghapel Coch cyflwynodd Hogia'r Wyddfa ddisg aur i Ysgol Dolbadarn. Diolchodd y prifathro i'r Hogia am eu caredigrwydd a hefyd arwyddocâd yr anrhegiad. Y mae'r ddisg hardd yn cael ei harddangos ar fur un o rodfeydd yr ysgol.

### PWYSIG

Nos Fawrth, Rhagfyr 18, yn Eglwys Sant Padarn, am 6.30 p.m. cynhelir Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau gan blant o Ysgol Dolbadarn. Gwneir casgliad tuag at Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru.

Bu tîm pêl-droed ysgol Dolbadarn yn chwarae yn erbyn tîm ysgol yr Hendre. Colli o dair gôl fu hanes y tîm y tro hwn.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
**GONTRACTWYR LLORIAU**

# CUMBERLAND

**Manchester House, Stryd Fawr**
**DEINIOLEN** *Ffôn Llanberis 536*
*(Fin nos — Beddgelert 301)*
Yr arbenigwyr ar:
Loriau Bloc, Leino, Rwber, Thermo-plastig, Corc, Carpedi, Ail-lorio

---

**Cyfarchion Nadolig o**
# Ddeiniolen
**a**
**Phenisarwaun**

---

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth
**HUGH EVANS a'r Staff**

# EVANS VEHICLE BODY REPAIRS

## CLWT-Y-BONT

*Ffôn: Llanberis 611*

Trwsio tolciau, weldio, spreio, atgyweirio wedi damwain, ac ati
**CEIR AIL-LAW AR WERTH**

---

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

# JACOB A. JAMES

**Regent House**
## DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 461

---

Bysus pleser a bysus mini ar log
Bysus 12-52 sedd ar gyfer pob achlysur
Telerau cystadleuol
Gwaith contract
Gwasanaeth tacsi lleol

# IEUAN WILLIAMS

**Glanffrwd, Gallt-y-foel**
## DEINIOLEN
*Ffôn Llanberis 484*
*NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA*
*i chwi oll*

---

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB
oddi wrth
CLIFFORD, DIANA A NIA

# Swyddfa'r Post
## DEINIOLEN

Ffôn : LLANBERIS 283

---

Cyfarchion y tymor
oddi wrth

**OSMOND W. SHAW**

**Peiriannydd**
**Radio a Theledu**
**& Gwasanaeth Awdio**
BWLCH UCHAF
**DEINIOLEN**
*Ffôn Llanberis 545*
*Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch*

---

NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD
DDA i chwi oll
oddi wrth

# W.H.Jones

CIGYDD

WAENGOCH
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 638

---

DYMUNA
CLARICE, ERYL
a'r STAFF

# BULL INN

**DEINIOLEN**

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i gwsmeriaid a
chyfeillion oll

---

Am ddewis da o
anrhegion Nadolig
i bawb o'r teulu

# SIOP HELEN

**DEINIOLEN**
*Ffôn Llanberis 386*

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD DDA
i chi oll

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE
DEINIOLEN
(Ffôn: Llanberis 287
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR
ODDIWRTH
E. & E.M. GREEN
SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN
Ffôn: PADARN 272

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
THOMAS & JONES
Gwydrwyr
GWEITHDY A STORDY, CLWT-Y-BONT
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 486 neu 680
GWYDR – GWYDRO – GWYDR DWBWL
*Amcangyfrifon rhad ac am ddim*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda. Diolch am eich cefnogaeth yn 1979. Dymuniadau gorau ar gyfer 1980
oddi wrth
BOB A RUTH PHILLIPS
WELLINGTON INN
Deiniolen
Ffôn : Llanberis 227
Cwrw blasus – chwerw ar ei orau

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth
E.&A.Hughes
SIOP BAPUR NEWYDD
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 483

CYFARCHION
Y TYMOR
A'R
DYMUNIADAU GORAU
AM 1980
oddi wrth
GWYN OLIVER JONES
Tafarn Datws Arfonia
DEINIOLEN
SGLODION DIGURO!

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
Y CO-OP
Deiniolen
Ffôn : LLANBERIS 214
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH
TRWY GYDOL 1979

# BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod blynyddol y sefydliad yn Nhŷ Glas cafwyd cwmni Mrs Treen a Mrs Richardson o Gaernarfon. Diolchwyd i'r ddwy chwaer gan Mrs Betty Owen. Rhoddwyd y te gan Mrs H.J. Jones a Mrs Gwyneth Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Betty Owen ac fe'i henillwyd gan Mrs Richardson. Diolchwyd gan Mrs Pat Jones ac fe ddymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Jennie Williams ac anfonwyd cofion at ei mab, Bryn, sydd wedi dioddef anffawd yn yr Unol Daleithiau. Da yw deall ei fod yn gwella ac fe ddisgwylir ef gartref am ychydig ddyddiau dros y Nadolig.

APÊL CAMBODIA – Dan nawdd OXFAM a rhaglen plant *Blue Peter* y BBC, cafwyd arwerthiant yn Nhŷ Glas, ddydd Sadwrn, 17 Tachwedd ac fe wnaed elw o £70.20 at yr apêl uchod. Diolchwn yn fawr iawn i drigolion a phlant Brynrefail a Chwm-y-glo am eu cefnogaeth, ac yn arbennig i Bill Jones o'r Fricsen am gymryd rhan Siôn Corn a diddori'r plant.

Fe enillwyd gwobrwyon y raffl gan: Audrey Roberts, Margaret Jones, Margaret Wardle, Sylvia Williams, Helen Jones ac Alwen Jones.

CLWB PEDWAR UGAIN – Enillwyr mis Hydref.
Hydref 5: 1. Betty Owen (Tros Afon); 2. Helen Roberts; 3. Mrs H.J. Jones.
Hydref 12: 1. Margaret Jones; 2. Emyr Jones; 3. Megan Jones.
Hydref 19: Meurig Jones; 2. Mrs Hasson; 3. Arthur Jones.
Hydref 26: 1. Eirlys Williams; 2. Carol Houston; 3. Aled Green.

Cyhoeddir bod swper Nadolig y clwb i'w gynnal yng Ngwesty'r Royal, Caerr ırfon ar 15 Rhagfyr yng nghwmni yr 'Outlaws' – grŵp sydd yn cynnwys dau o fechgyn o'r pentref. Bydd y gost yn £5 i aelodau'r clwb a £6 i wahoddedigion heb fod yn aelodau. Bydd y bws yn cychwyn o'r bont am 7.00 o'r gloch ar 15 Rhagfyr ac fe dderbynnir enwau gan gasglwyr y clwb, neu gellir cysylltu â Mrs Pat Jones, ffôn Llanberis 589, neu Dafydd Ellis, ffôn Padarn 223.

CLWB MAMAU – Yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r clwb cafwyd noson ddifyr yng ngofal Mrs Adams o Ddeiniolen yn dangos y grefft o nyddu. Diolchwyd i Mrs Adams gan Mrs Pat Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i henillwyd gan Phyllis Jones. Rhoddwyd y te gan Rhian Jones a Helen Jones.

O'R YSBYTY – Daeth Mrs Monica McAfferty adref ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Dewi Sant, Bangor ac fe ddymunwn iddi adferiad llwyr a buan. Dymunwn yr un modd i unrhyw un a fu'n wael yn ystod y mis a aeth heibio.

CLWB REFAIL – Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs Dorothy Jones o Gwm-y-glo – trefnydd Gogledd Cymru ar ran *Action Research*. Gwnaed y te gan Mrs D. Wager, Tŷ Eryri. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Jennie Williams, Brynmelyn, ac fe'i henillwyd gan Mr Wager. Croesawyd dau aelod newydd, sef Mr a Mrs Welsby, Tremallt. Bydd y Swper Nadolig yng Ngwesty'r Marine yng Nghaernarfon ar 11 Rhagfyr. Anfonwyd cofion at Bryn Williams yn Georgia, gan ddymuno adferiad buan iddo ar ôl ei anffawd, ac edrychwn ymlaen at ei weld gartref dros y Nadolig.

# WAUNFAWR

LLONGYFARCHIADAU i Miss Dorothy June Lewis, 8 Ael y Bryn, ar ei phriodas â Mr Nicolas Emlyn Taylor, 38 Llwyn Beuno, Bontnewydd. Dymunir pob hapusrwydd i'r ddau.

YN YR YSBYTY – Dymunir adferiad buan i Mrs Margaret Williams, Llannerch, sydd ynyr ysbyty.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Mrs Edwina Walters, y Llythyrdy. Dymunir gwellhad buan iddi hithau hefyd.

PROFEDIGAETHAU – Cydymdeimlir â Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

Hefyd Mrs Daphne Williams, Aneddle, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Emily Lane, gynt o Fryn Eirian.

Hefyd bu farw Miss Jennie Williams, Weirglodd Goch. Cydymdeimlir â'i chwaer Miss M.E. Williams, a'i brawd Mr J.P. Williams, sy'n byw yn yr Amwythig.

CLWB Y MAMAU – Yn ystod y cyfarfod diwethaf mwynhawyd ffilmiau gan Mr T. Fordham a Mr I.R. Langhead o'r Bwrdd Dŵr. Croesawyd hwy gan Mrs Alice Johnstone, ac enillwyd y raffl gan Mrs G. Greasley. Bydd y cinio Nadolig yn cael ei gynnal yng Ngwesty Parc Eryri, nos Wener, Rhagfyr 8.

YR YSGOL FEITHRIN – Nos Wener, Tachwedd 16, treuliwyd noson ddifyr iawn yn Neuadd yr Eglwys gyda Chwmni Glannau Dwyfor a Chwmni Bon Marche Pwllheli, pryd y cafwyd noson o Ddrama a Chân. Diolch i bawb am eu cefnogi.

Hefyd, dydd Iau, Rhagfyr 13, yn Festri Capel Croesywaun am 10 o'r gloch bydd Bore Coffi a 'mince pies'.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y mudiad yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, Tachwedd 1 gyda Mrs Katie Jones yn llywyddu. Darllenodd y llythyr misol a chyhoeddodd fod y parti Nadolig i'w gynnal yng Ngwesty Llety, Caeathro nos Fawrth, Rhagfyr 4 am 8 o'r gloch.

Cyflwynodd y trysorydd, Mrs Buddug Rowlands ei datganiad, a chyflwynodd Mrs Betty Griffith, yr ysgrifennydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

Rhoddodd y llywydd ei haraith, ac aeth ymlaen i groesawu Mrs Olive Rowlands fel trefnydd gwirfoddol y sir. Cafwyd hanes diddorol o ymweliad Mrs Rowlands â Swyddfeydd y Mudiad yn Llundain.

Diolchodd Mrs Morfa Evans iddi a diolchodd Mrs Idris Jones i'r pwyllgor am ei waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y pwyllgor am y flwyddyn nesaf fydd: Llywydd: Mrs Catherine Jones; Ysgrifennydd: Mrs Katie Jones; Trysorydd: Mrs Buddug Rowlands; Mrs Morfa Evans, Mrs Nesfield, Mrs Betty Griffith, Mrs Peggy Jones, Mrs Doris Roberts, Mrs Benson a Mrs Alice Johnstone.

Enillodd Mrs Morley Williams y raffl a roddwyd gan Mrs Buddug Rowlands ac enillodd Mrs Morfa Evans y gystadleuaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal nos Iau, Rhagfyr 6 pan fydd arddangosfa gemwaith gan Mrs Benham.

MERCHED Y WAWR – Nos Iau, Hydref 25 cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor yn Neuadd yr Eglwys. Croesawodd y llywydd, Mrs M. Austin Jones, ychwaneg o aelodau newydd, a chydymdeimlodd â Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr.

Cafwyd noson ddifyr pan holodd y gangen banel o dri, sef Marged Dafydd, Mr Gwynn Davies a'r Dr. A.L. Miles. Diolchwyd iddynt gan Mrs Glenys Williams a Mrs Irene Roberts. Gwestwragedd y te oedd Mrs Lloyd Hughes, Mrs Gwynn Davies a Mrs Eluned Roberts. Enillydd y raffl a roddwyd gan Mrs Gwynn Davies oedd Mrs M. Austin Jones. Enillydd cystadleuaeth y mis oedd Mrs Griffiths, Bronallt. Yn ystod y cyfarfod casglwyd £4.50 tuag at Wythnos yr Henoed. Diwedd Tachwedd bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig yng Ngwesty Tanronnen, Beddgelert, ac ni chynhelir cyfarfod wedyn hyd Ionawr 24, pryd y ceir noson yng nghwmni Mrs Hughes, Llys Meredydd.

PLAID CYMRU – Cofiwch am y Ffair Nadolig sydd i'w chynnal ar Ragfyr 14 yn Neuadd yr Eglwys, a hefyd y parti Nadolig yn yr Afr, Beddgelert nos Wener, Rhagfyr 21. Croeso i aelodau a chefnogwyr newydd. Mae tocynnau ar gael yn y Frenni.

EISTEDDFOD YR ARDAL – Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ardal yng Nghapel Croesywaun ddydd Sadwrn, Tachwedd 13. Y beirniaid oedd: Mrs Leah Owen (Cerdd); Mr Eifion Lloyd Jones, Tregarth (Adrodd a Llên); Mr John Davies, Pen-y-groes (Arlunio); Miss Rhiannon James, Bontnewydd (Coginio a Gwaith Llaw); Dafydd Iwan (Llinell Goll).

Cyfeiliwyd gan Mr E. Wyn Jones, Waunfawr a Mrs N. Lovatt, Llanrug.

Dyma'r canlyniadau:

Canu dan 5: 1. Alaw Jones, 2. Meilir, 3. Eilir a Martin. 5-7: 1. Ella Wyn Jones, 2. Nia Lloyd Jones, 3. Telor Iwan. 7-9: 1. Nan Wyn Jones, 2. Euros Wyn; 3. Garym Jackson. 9-11: 1. Iwan; 2. Huw; 3. Penny, Joanne, Iona. Deuawd dan 15: 1. Penny Walters a Sandra Jones. Cân Werin dros 25: 1. Alun Williams, 2. Eurig Wyn. Unawd Gymraeg: 1. Alun Williams, 2. Humphrey Jones; 3. Jeanette Burden. Deuawd dros 25: 1. Humphrey ac Alun; 2. Jeanette ac Ann. Grŵp Pop: 1. Llwyd. Côr: 1. Côr Ni; 2. Côr Nhw. Cân actol dan 7: 1. Côr Meilir. Chwarae recorder dan 9: 1. Parti Siân. Parti unllais dan 9: 1. Ffion; 2. Andrew. Cân actol dan 11: 1. Côr Kevin. Canu piano dan 11: 1. Joanna Marsden; 2. Iwan Ellis; 3. Kevin Roberts. Parti recorder dan 11: 1. Parti Joanna. Canu piano dan 14: 1. Siân Barnes; 2. Alan Benham; 3. Gwyneth Ellis. Offeryn llinynol dan 18: 1. Siân Barnes; 2. Joanne Weale. Offeryn chwyth dan 18: 1. Bethan Pritchard, 2. Bridget Barnes. Unawd piano dan 14: 1. Joanna Marsden. Deuawd piano (agored): 1. Dr. Woods a Mrs Nesfield; 2. Simon a Nicki; 3. Joanna a Penny. Unawd offeryn cerddorol: 1. Simon Roberts.

Adrodd dan 5: 1. Alaw; 2. Meilir; 3. Rhodri ac Elin. 5-7: 1. Ella Wyn Jones; 2. Nia Lloyd Jones; 3. Telor Iwan. 7-9: 1. Sandra Jones; 2. Garym Jackson; 3. Nan Wyn Jones. 9-11: 1. Huw Jones; 2. Iona Williams; 3. Llion Iwan. Grŵp dan 11: Côr Siân. 11-13: 1. Gwyneth Ellis; 2. Siân Thomas. 13-15: 1. Ceri Thomas. Dros 25: 1. Irene Roberts. Dros 60: 1. Kate Roberts. Côr: 1. Ysgol Feithrin; 2. Gwylan; Alma; Frenni.

Arlunio dan 7: 1. Telor Iwan; 2. Rhodri Jones; 3. Gwyndaf Williams. Dan 9: 1. Sandra Jones; 2. Helen Wyn Hughes; 3. Wayne Owen. Dan 11: 1. Adrian Owen; 2. Kevin Roberts; 3. Jason, Penny, Llion. Agored: 1. Mrs Benham; 2. Mrs J. Roberts; 3. Mrs Benham. Dan 15: 1. Gwyneth Ellis, 2. Karen Turner.

Coginio dan 12: 1. Bethan Pritchard. 12-18: 1. Ann Dawson; 2. Janet Dawson. Torth: 1. Mr John Roberts; 2. Mr John Roberts; 3. John Roberts a Mrs C. Williams. Gwin gwyn: 1. Mrs Pat Parry, 2. Dr. Woods. Gwin coch: 1 a 2. Dr Woods. Tegan meddal: 1. Bethan Pritchard. Gwisg: 1. Valerie Griffiths. Wasgod: 1. Mrs N. Pritchard; 2. Mrs K.W. Jones. Crosio: 1. Mrs K.W. Jones. Collage dan 9: 1. Helen Wyn Hughes; 2. Karen Roberts; 3. Osian Gwynedd. Dan 11: 1. Penny Walters.

Llenyddiaeth dan 9: 1. Helen Wyn Hughes a Karen Roberts; 2. Siân Lloyd Jones; 3. Elliw Iwan a Sandra Jones. 9-11: 1. Llion Iwan; 2. Huw Jones; 3. Penny Walters. Dan 18: Miss Anna Hughes. Dros 25: 1. Mrs Olwen Williams; 2. Mrs J. Austin Jones; 3. Mrs Bett Hughes. Llythyr o gŵyn: 1. Norman Williams; 2. Irene Roberts. Drama un act: 1. Marilyn; 2. Marion; 3. John. Llinell goll: Mrs Olwen Williams. Dialog: 1. Alma a Norman; 2. Kate, Grace a Don. Darllen ar yr olwg gyntaf: 1. Irene; 2. Alma; 3. Norman. Darn heb ei atalnodi: 1. John Roberts; 2. Margaret Owen; 3. Grace Dawson. Stori fer: 1. Marion Iwan; 2. Irene Roberts; 3. Margaret Jones a Margaret Owen.

Diolchir i'r pwyllgor am drefnu'r eisteddfod, ac yn arbennig i'r ysgrifennydd, Mrs Rose Ann Hughes, Tref Eilian.

# DINORWIG

CYDYMDEIMLIR – â Mrs Mary Jones, Craig Bela, Fachwen, ym marw ei brawd Mr R. Dunstan Pritchard, Rhiwgoch, Clwtybont, yn ddiweddar, a hefyd gyda Mr a Mrs Alun Phillips, 6 Maes Eilian, Dinorwig ym marw tad Mrs Phillips yn ddiweddar, sef Mr A.C. Owens, 68 Maes Padarn, Llanberis. Dymunir adferiad buan i Mrs Phillips sy'n cael triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon.

DIOLCH ARBENNIG – Dymuna Mr a Mrs R. Lloyd Thomas, Wollaston, Swydd Northampton, ddatgan eu diolch i amryw o gyfeillion a anfonodd gardiau, rhoddion mewn parseli ac arian ar achlysur geni eu mab Andrew Richard Thomas, ar Hydref 1, eleni.

YN YR YSBYTY – Anfonir cofion cynnes at Mr Eurwyn Pleming, 1 Maes Eilian, yn Ysbyty Sant Thomas, Llundain, a Miss Nora Williams, Padarn Stores, Fachwen yn Ysbyty Bryn Hyfryd, Dinbych. Brysiwch adref.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG – Nos Iau, Hydref 25, yn Festri Dinorwig MC, agorwyd tymor y Gymdeithas eleni trwy ddarlith ddiddorol ar 'Maeth' gan y Dr Eirwen Gwynn, Llanrug. Llywyddwyd gan Mrs Laice Griffith, Tanybwlch. Cymerwyd rhan gan yr aelodau mewn trafodaeth wedi'r ddarlith. Talwyd diolchiadau gan Mrs M.E. Hughes, Groeslon Uchaf, a Mr O.R.Williams, 2 Bro Elidir.

Nos Iau, Tachwedd 15 yn y Ganolfan, cafwyd sgwrs ac arddangosiad ar sut i drefnu a gosod blodau gan Mrs Maud Williams, Caernarfon. Llywyddwyd gan Miss Ellen W. Jones, Ty'n Fawnog. Talwyd diolch gan Mrs Lloyd Hughes, Maes Eilian.

DIOLCHIADAU – Dymuna Miss Annie Jones, 6 Bro Elidir, ddiolch o galon i Staff Ysbyty Dewi Sant Bangor, teulu a chyfeillion, am bob caredigrwydd a gofal a ddangoswyd iddi tra yn yr ysbyty ac wedi dod adref.

Dymuna Mr a Mrs Alun Phillips a'r plant, 6 Maes Eilian, ddiolch o galon i'w perthnasau a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu prfoedigaeth o golli tad a thaid annwyl. Diolch arbennig i Dr Pamela Jones, Llanberis.

# TAN-Y-COED

MARW – Dydd Iau, Tachwedd 8 bu farw Mrs Dorothy Williams, 26 Stryd Edward, Caernarfon, gynt o Bant-y-bryngwyn, Tan-y-coed. Yn ysbyty Minffordd Bangor y bu farw Mrs Williams a hithau yn 69 mlwydd oed. Claddwyd hi ddydd Mawrth 13 ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon – angladd preifat a'r Parch Harri Parri yn gweinyddu.

O'R YSBYTY – Wedi cyfnod yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, ac yn ei chartref Tan-y-coed Cottage, dychwelodd Mrs M.E. Shilton i Edgeware, Middlx i aros gyda'i merch.


Llawenydd i'w chyfeillion yw derbyn llythyrau oddi wrth Mrs Shilton; llythyrau wedi eu hysgrifennu yn ei llawysgrifen ei hun, profion i'r driniaeth ddiwethaf a gafodd i'w llygaid fod wedi gwneud lles iddi. Parhaed y llygaid i gryfhau.

Dymuniad Mrs Shilton, cyn ymadael oedd, drwy gyfrwng y papur hwn, ddatgan ei diolchgarwch diffuant i gyfeillion y fro, am eu cyfarchion a'u dymuniadau da, eu hymweliadau a'u cofion tra'r oedd yn yr ysbyty, ac ar ôl hynny yn ei chartref.

'Rydym yn falch iawn o weld Miss Humphreys (ein gohebydd yn Nhan-y-coed yn ôl gartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty – *Golygydd.*

PARTI'R PENSIYNWYR – Mae cais ar i bensiynwyr Llanrug a Than-y-coed gofio'r dyddiad RHAGFYR 12. Dyma ddiwrnod eu parti Nadolig. Gofynnir i bob un ddod â'i gyllell a'i fforc a'i lwy ei hun.


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP

Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

DETHOLION O'R LLYFR 'YN YR ARDD' gan Tom Jones

Fel yr addewais dyma ddetholion o'r llyfr gwerthfawr 'Yn yr Ardd' sef Sgyrsiau Radio y diweddar Tom Jones, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug – y pengarddwr. Gwelsoch ei lun yn *Eco'r Wyddfa* fis yn ôl. Y mae ein dyled yn fawr i Gorfforaeth Ddarlledu Cymru am ganiatáu cyhoeddi'r sgyrsiau hyn. Argraffwyd y llyfr Gorffennaf 1947. Hoffwn i yn fawr weld Ail Argraffiad ohono.

"Y mae'n werth cofio bod gwir gyfoeth yr hen ddaear yma yn ei chrystyn. Fe synnwch yr wmbredd o gnwd y gellir ei godi o rhyw 10-15 modfedd o ddyfnder. Cofiwch mai'r dywarchen yw'r dafell orau o fwyd a brethyn i'r crystyn – yn wir hwn yw'r crystyn. Dylid torri'r tywyrch i fyny yn dalpiau lled fân a'u cymysgu â haen uchaf y pridd.

"Yn ychwanegol at y gwrteithiau celfyddydol a gwrteithiau fferm rhaid cyfeirio at un sylwedd arall anhepgorol a dyma yw hwnnw – calch. Waeth i chi ar y ddaear faint o wrteithiau a rowch i'r tir os bydd yn ddiffygiol mewn calch.

"Peidiwch byth â chymysgu calch hefo gwrtaith. Cymysgwch bob un ar wahân.

"Pe baech yn methu cael calch y nesaf o ran gwerth, ac efallai yn fwy o werth mewn rhyw ystyr, am ei fod yn cynnwys yr elfen 'phosphate' ydyw 'basic slag'. Y mae 'basic slag' yn fwy o werth yn yr ardd nag y mae llawer yn ei feddwl, nid yn unig i fresych a llysiau meddal ond hefyd i bob math o ffrwythau mân a bras. Cofiwch hefyd fod y bresych yn farus a gwancus am wrtaith fferm cryf.

"Cliriwch bob ysbwriel o'r ardd a all roddi lloches i bryfed o bob math.

"Peidiwch â thyfu gormod o datws yn yr ardd yn enwedig tatws diweddar. Gwell defnyddio'r tir i blannu coed ffrwythau o bob math, ac yn enwedig ffrwythau mân na chymerant ormod o le, fel Eirin Mair (gooseberies), Rhyfon Duon a Chochion (currants) a Mafon (rasberries) ac eraill.

"Plannwch hefyd y cnydau sydd â'u gwrteithiau o werth i'w bwyta, maip, moron, pannas (parsnips), betys, artichokes a wynwyn.

"A dyna'r cnydau sy'n cynhyrchu codau (pods) fel y ffa o bob math, y rhai llydain fel y'u gelwir – y ffa dringol (runner beans) a'r pys o bob math hefyd.

"Cofiwch blannu digon o'r cnydau sy'n cynhyrchu dail i'w bwyta. Y mae y rhan fwytadwy ohonynt y tu allan i'r ddaear, ac yn sicr dyma'r dosbarth o'r llysiau iachusaf am eu bod, mae'n debyg yn byw allan yn yr awyr agored, yn yr heulwen yn wastad – cnydau fel cabaits, adfresych (sprouts), blodfresych (cauliflower), y savoy, y kale cyrliog hefyd, y cabaits coch (rhai da am ddal tywydd). Y mae spinach a letis hefyd yn werth eu tyfu. Nid yw'r rhain o'r un tylwyth â'r bresych. Ni raid dweud fod y letis yn fwyd iachus, yn fwy felly efallai, mae'n debyg am y bwyteir hwy'n amrwd. Y mae'r rhan fwyaf o'r bresych a fwyteir wedi eu handwyo wrth eu coginio a'r maeth wedi ei daflu i ffwrdd hefo'r dŵr.

"Fe elwir Cymru weithiau yn Wlad y Cennin. Dyma lysieuyn iachusol iawn. Y mae'r cennin yn iach ei hun, hynny yw o gyfansoddiad iach. Meddyliwch am ei gefnder y wynwyn. Mor drafferthus yw hwn i'w dyfu ynte? Yda chi ddim yn meddwl fy mod wedi brolio digon ar y cennin i godi blys arnoch i roi lle iddo yn eich gardd?

"Sut mae'r 'tomatoes' yn dod ymlaen? Gofalwch eu bod yn cael digon o awyr. Waeth pa mor boeth yr â'r tymheredd yn y tŷ gwydr os bydd digon o awyr yn dod i mewn. Awyr ydw i'n ddweud – hynny yw, cylchrediad o awyr nid 'draught'. Y ffordd orau i gael y cylchrediad yw ei gwneud yn bosibl agor y tŷ gwydr ar ei grib neu'r ochr uchaf iddo, ac ar yr ochrau hefyd.

"Y mae'n debyg y byddwch yn taenu rhwyd dros y mefus er mwyn cadw'r adar draw. Y mae'r mwyeilch a'r bronfrithod ifainc yn hoff iawn o'r ffrwyth, ac yn rhyfedd iawn fe ffeindia'r adar gwirion eu ffordd i mewn trwy'r cwbwl, neu dyna fy mhrofiad i beth bynnag. Bydd rhai yn dweud mai eisiau diod y byddant, ac y dylid rhoi llestri â dŵr ynddynt o fewn eu cyrraedd, ond 'dwi'n meddwl y buasai'n well gen i 'fefan' i ireiddio fy ngwddw na diod o ddŵr ar ddiwrnod tesog yn enwedig!

"Cafwyd dadl boeth lawer tro, rhwng un a dyfai daten o dan yr enw 'Eclipse' ac un arall a dyfai 'Sir John Llewelyn'. Y naill a'r llall yn haeru mai ei un ef oedd y cynharaf, a'r ddau yn tyfu'r un fath o daten o dan wahanol enw. Dyma 'secret' bach i chi i wybod enw y daten a dyfwch. Pan fo'r tatws yn eu llawn dwf, dyweder yn nechrau Groffennaf, cymerwch ddarn o'r gwlydd a thorrwch ef ar draws â chyllell. Os bydd y gangen yn solet drwyddi, heb holwy o gwbl, gellwch fod yn sicr mai 'Eclipse' neu 'John Llewelyn' – pa enw bynnag y leiciwch ei alw arno – sydd gennych.

"Mi fydda i'n meddwl weithiau ai tybed a ydym ni'n cadw digon o huddugl at bwrpas yr ardd. Y mae'n wrtaith perffaith ac yn myned yn well wrth ei gadw: nid yw pob gwrtaith felly, fel y gwyddoch. Y mae huddugl blwydd yn well na'r un sydd newydd ddod o'r simnai. Cofier ei ddefnyddio ar ei ben ei hun: peidiwch â chymysgu calch efo fo, fe wna felly i ddifa malwod efallai, ond fel gwrtaith difethir ef ar unwaith. Wel, am grwydro 'rydw i wedi ei wneud, nes mynd dros fy mhen i huddugl a chalch! Gadewch inni newid y testun am funud eto. A ydych wedi plannu eich pompiynnau (vegetable marrow)?

Gofalwch chwistrellu pob math ar goed ffrwythau yn ystod Rhagfyr a Ionawr, gyda rhai o'r trwythau sy'n cynnwys 'tar'. Y mae wyau y pryfed a fydd yn ymosod ar y blodau a'r dail yn y gwanwyn nesa' ar y coed eisoes, ac felly rhaid eu lladd yn nhrymder y Gaea trwy chwistrellu'r coed.

"Os oes gennych ardd a ystyrir yn heintus, sef y math o'r tir hwnnw na wiw ichi geisio tyfu rhai mathau o datws, fel 'Sharpes Express' – 'Duke of York' neu 'Eclipse' ynddo o gwbl, na ddaw rhyw bla o grach dros y tatw. Cofiwch hyn unwaith ac am byth ni ellwch ei glirio o'r tir o gwbl. Y mae'n hollol anfeddyginiaethol. Ond ni raid i neb ddigalonni gan fod amryw fathau o datws cynnar a diweddar i'w cael yn awr sydd yn berffaith glir oddi wrth yr haint, er enghraifft 'Dargill Early' neu 'Boston Kidney' (yr un yw'r ddau), 'Snowdrop Resistant', 'Arran Pilot', 'Aran Crest' (crwn)' 'Edzell Blue' (crwn) ac eraill. Y mae rhyw 'immunity' yn perthyn i gyfansoddiad y mathau hyn, sy'n eu galluogi i wrthsefyll yr haint ofnadwy yma. Gofalwch gael y tatws cywir.

"Mi fuaswn i'n caru gweld mwy ohonom ni'r Cymry yn cymryd mwy o ddiddordeb mewn blodau. Ofnaf fod cryn wastraff, hyd yn oed mewn gerddi bach ym mhentrefi'n gwlad: llawer ohonynt yn llawn chwyn ar hyd y flwyddyn. Efallai bod hyn yn ddigon o ddwrdio'r tro yma. Y tro nesaf mae'n debyg yr awn am dro yn ôl i'r ardd a'r tŷ gwydr hefyd i edrych sut y mae'r 'tomatoes' yn dod ymlaen."

## Ger Cofeb R. Williams Parry



*Plant Ysgol Bethel ger cofeb Bardd yr Haf yn Nhal-y-sarn. Ar yr un diwrnod bu'r plant yn ymweld â Rhyd-ddu (Tŷ'r Ysgol, cartref T.H. Parry-Williams) ac â Chae'r Gors, Rhosgadfan (cartref Kate Roberts).*

## BETWS GARMON

GENI – Llongyfarchiadau i Rhian ac Emyr Evans, Bron-y-graig ar enedigaeth merch fach, Manon Wyn, Tachwedd 10.

CYDYMDEIMLAD – Brawychwyd yr ardal gyda marwolaeth gynnar Mrs Betsi Roberts o'r Groeslon, Caernarfon (Arwel gynt). Cydymdeimlir yn ddwys â'i Mam, Mrs Nell Hughes ac â Mr John Williams, Cerrig-y-rhyd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr H.O. Jones, Tŷ Coch ar ei lwyddiant yn eisteddfod y Waunfawr.

PEN-BLWYDD – Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Eirian Williams, Ty'n Weirglodd ar gyrraedd ei 18 oed, Tachwedd 23.

GWELLA – Da yw gweld bod Eurig, Bryn Tegid, a Gwyndaf, Ty'n Weirglodd wedi gwella ar ôl gwaeledd diweddar.

## NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU – i Rhiannon, gynt o Gwynant, ar basio ei phrawf terfynol i'w chymhwyso fel bydwraig mewn ysbyty yng Nghaerdydd.

BRYSIWCH WELLA – yw dymuniad yr ardalwyr i Dave Thomas a hefyd Stan Edwards, Bro Glyder.

MARWOLAETH – Gyda gofid y croniclwn farwolaeth y diweddar William D. Roberts, a gâi ei adnabod yn y Nant wrth yr enw Wil Stadnant. Yr oedd yn byw ers blynyddoedd ym Mangor, a byddai'n edrych ymlaen bob mis at gael derbyn Eco'r Wyddfa, ac yr oedd hefyd yn gyfrannwr cyson i'r papur. Y mis cyn y diwethaf ysgrifennodd ei atgofion am y Nant a'i hiraeth am yr amser hapus pan oedd y ffair mewn bri.

GENI – Y mis diwethaf yr oeddem yn ffarwelio â Charys a Wil Aaron. Yn ystod y mis mae'r trydydd wedi cyrraedd i'r teulu. Croeso cynnes i Siôn.


GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

# DEINIOLEN

**FFAIR DEGANAU** – Dydd Gwener, Tachwedd 16, cynhaliwyd Ffair Deganau gan blant Ysgol Gwaun Gynfi, fel rhan o apêl y rhaglen deledu *Blue Peter*, er budd y newynog yng Nghambodia.

Uchafbwynt y Ffair oedd ymweliad annisgwyl Terry Griffith, Pencampwr Snwcer y Byd, a ddigwyddai fod ar ymweliad â'r ardal. Cadwyd ef yn hynod o brysur yn gwerthu ei lofnod er budd yr arwerthiant.

Plant yr ysgol eu hunain a roddodd y cyfan o'r teganau a'r llyfrau a oedd ar werth yn y Ffair, a hwy hefyd, gyda chefnogaeth eu rhieni, a brynodd y nwyddau. Fel canlyniad i hyn, anfonwyd £100 o'r ysgol i gronfa Cambodia. Llawer o ddiolch i'r plant am eu haelioni.

DIOLCHIADAU – Dymuna Gwynfor Jones (Lleiniau), 38 Pentre Helen ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ato yn ystod ei waeledd yn yr ysbyty yr wythnosau diwethaf.

SEINDORF DEINIOLEN – Ym mis Ionawr mae BBC Radio Cymru yn mynd i gynnal Cystadleuaeth i Fandiau Pres Cymru am y teitl o 'Fand Pres Gorau Cymru' am y flwyddyn 1980. Y mae Seindorf Deiniolen wedi cael y fraint fawr o dderbyn gwahoddiad i gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon.

Llongyfarchiadau i'r Seindorf am ennill Pencampwriaeth Gogledd Cymru Dosbarth C mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd yng Nghei Connah ddydd Sadwrn, Tachwedd 17. Beirniad y gystadleuaeth, a oedd o safon uchel, oedd Mr J. Scott, a'r canlyniadau terfynol oedd: 1af – Deiniolen, 2il: Royal Oakely, 3ydd: Llanrug, 4ydd: Conwy. Yn ystod gweithgareddau'r diwrnod cyflwynwyd tlws i Mr Eric Foster, arweinydd y seindorf, am ei wasanaeth o hanner can mlynedd i glybiau bandiau pres.

Ar Ragfyr 1 bydd y seindorf yn gorymdeithio trwy Fangor efo Siôn Corn a byddant yn diddanu bechgyn y Llu Awyr yn y Fali o hyn i'r Nadolig. Bydd Cinio Blynyddol y Seindorf yng Ngwesty Victoria, Llanberis ar Ragfyr 31.



*Mr Eric Foster yn derbyn tystysgrif anrhydeddus aelodaeth am oes o Gymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru oddi wrth Mrs Evelyn Bray, MBE.*

'LAID CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn ystafell y seindorf nos Lun, Tachwedd 19, pryd y penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Arfon i ddatgan siomedigaeth ynglŷn â'r penderfyniad i beidio mynd ymlaen â'r bwriad i godi byngalos yn Ninorwig.

Cynhelir noson 'Croeso '80' yng Nglangwna, Caeathro nos Calan (Rhagfyr 31), pryd y darperir lluniaeth ac adloniant. Mae tocynnau (£2.50) ar gael yn Swyddfa Caernarfon.

Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd – £15: Mr Gwyn Parry, Bro Dawel (20); £10: Miss Eileen Williams, 37 Rhydfadog (108)

DIOLCH – Dymuna Owie Gibson, 17 Hafod Oleu ddatgan ei ddiolchgarwch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddo yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i'r Parch. Trefor Lewis am ei bresenoldeb a'i gymorth yn yr angladd.

TÎM PÊL-DROED IEUENCTID – Dymuna pwyllgor yr uchod ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd trwy bresenoldeb, gweithred a rhodd i wneud y Noson Goffi a gynhaliwyd nos Wener, Tachwedd 16 yn un mor llwyddiannus.

PRIODAS – Dymuniadau da i Delyth Pritchard, 86 Pentre Helen a Derek George Pritchard, 50 Y Wern, Y Felinheli a briodwyd gan y Parch. Gwilym Berw Hughes yn Eglwys Llanddinorwig Sadwrn, Hydref 3. Dymuna'r ddau ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am yr anrhegion a'r arian a dderbyniwyd.

MARWOLAETH – Bylchwyd yr ardal unwaith eto trwy farwolaeth sydyn Mrs Nan Jones, 1 Tai Gweledfa. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

AR YMWELIAD – Da gweld dau o'r pentref wedi dod adref unwaith eto, sef Doris a John Thomas, gynt o 65 Pentre Helen. Maent yn cartrefu'n awr yn Seland Newydd, ac yma am dri mis o wyliau. Croeso cynnes iawn iddynt i'n plith.

MARW – Bnawn Gwener, Hydref 26 ym Mhlas Maesincla, Caernarfon bu farw Mr David Arthur Jones, Eryl Fan, Ffordd Bangor, Bethesda (gynt o Gorffwysfa, Deiniolen) ddiwrnod ar ôl ei ben-blwydd yn 85 mlwydd oed. Yr oedd i fod i ymuno â'i briod yng nghartref ei fab a'i ferch yng nghyfraith ddydd Sul.

Bu Mr Jones yn gweithio mewn chwareli am bron i hanner canrif ac yr oedd yn uchel iawn ei barch ymysg ei gydweithwyr. Bu yn yr India yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a threuliodd ddeng mlynedd yn chwarel Kilcavan, Swydd Wicklow, Iwerddon yn hyfforddi chwarelwyr ifainc. Rhoddodd Mr Jones oes o wasanaeth ffyddlon i Eglwys Llandinorwig lle bu'n warden ddwywaith ac yn aelod o'r côr. Bu'n aelod gweithgar o lawer o fudiadau'r ardal megis Pwyllgor y Seindorf, Pwyllgor y Neuadd a Mudiad Sant Ioan.

Daeth tyrfa fawr o berthnasau a chyfeillion i'w angladd yn Llandinorwig bnawn Mercher, Hydref 31. Gwasanaethwyd gan y Canon Glyndwr Williams, y Parch. Trefor Jones, y Canon Hywyn Jones a'r Parch. Elwyn Roberts. Roedd Mr J.D. Edwards wrth yr organ. Y prif alarwyr oedd Mrs Mabel Jones (priod), Mr a Mrs Dafydd Orwig a Huw, Guto ac Owain Orwig (mab a merch yng nghyfraith ac wyrion), y Parch. a Mrs R.H. Jones, Llandudno (brawd a chwaer yng nghyfraith), Mr a Mrs Arthur Edwards, Rhostyllen (brawd yng nghyfraith a chwaer) a Mrs Pollie Jones, Bethesda (chwaer yng nghyfraith).

Y cludwyr oedd y Mri. Arthur Edwards, Elfed Jones, Huw Orwig a Guto Orwig. Gwnaed y trefniadau gan Mr Gareth Jones, Bethesda. Anfonwyd rhoddion at Gronfa Mwynderau Plas Maesincla.

DIOLCH – Dymuna Mr David Davies, 82 Pentre Helen ddiolch o galon i berthnasau a ffrindiau a chymdogion am y cardiau a rhoddion a hefyd y caredigrwydd a estynnwyd tuag ato yn ystod ei waeledd yn Ysbyty M)) )) Arfon. Diolch i'r meddygon a'r gweinyddesau a phawb yn yr Adran Feddygol Uchaf; hefyd diolch i'r meddyg teulu a'r gweinidogion.



Dymuna Brownies cyntaf Deiniolen ddiolch i Bwyllgor yr Ysgol Feithrin am ganiatâd i ddefnyddio iard yr ysgol i gynnal eu Noson Dân Gwyllt, pan gafwyd noson ddiddorol dros ben, a hefyd i bobl y pentref am eu rhoddion tuag at bartiNadolig i blant yr ysgol feithrin – arian a gasglwyd wrth fynd o gwmpas y pentref noson Calan Gaeaf.

Y SEINDORF – Enillodd pedwarawd Seindorf Deiniolen y wobr gyntaf i grŵp offerynnol dan 21 oed yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Aelodau'r grŵp oedd Marion Williams, Karen Williams, Nia Williams a Kelvin Lewis.

DIOLCH – i Mr John Emrys Jones, Caer am y llun o ddosbarth Ysgol Sul yng Nghefnywaen yn y tridegau. Yr athro oedd Mr Gwyn Ifor Williams, un o Flaenoriaid Cefnywaun. Dyn addfwyn, gonest a dirodres yn ôl Mr Jones. 'Roedd wedi darllen a pharatoi yn ofalus at bob Sul ac, er ei fod o ddifrif yn ei waith, 'roedd yn llawn hiwmor ac yn ddifyr ac yn barod i roi rhaff i'r hogia.

Ar ei law chwith mae Bob Tan y Graig, John Em ar ei dde ac yn sefyll John Davies, John Ellis, Graig Llwyd, Ellis James a Dei Tan-y-ffordd sydd yn barod i ymddeol fel gweinidog Bow Street, Aberystwyth ac yn adnabyddus fel pregethwr a bardd.

Bu llawer tro ar fyd er pan dynnwyd y darlun ond mae Mr Jones yn credu bod y disgyblion i gyd ar gael – dim ond yr athro sydd wedi ei ddyrchafu i Ysgol uwch.

Dymuna Mr Jones anfon ei gofion gorau at Mrs Williams, a'r hen deulu i gyd a diolch i'r Eco am amryw o atgofion difyr.





*Llun Delyth Pritchard a Derek George Pritchard ar ôl eu priodas. Gweler yr adroddiad yng ngholofn Deiniolen.*

## DIOLCH

**Diolch i'r canlynol am eu rhodd tuag at gynnal costau cynhyrchu'r** *Eco.*

**£2:** Y Parch. Herbert Thomas, Llannor.
**£1:** Mr a Mrs Ted Thomas, Llanberis.
50c. Dienw. Penisarwaun.
£1: Mr a Mrs Hugh Hughes, 87 Maes Padarn, Llanberis.
*£1.00: Mr R.L. Thomas, Northampton.*
£1.00: Mr David Davies, 82 Pentre Helen, Deiniolen.
£5: Mrs G.T. Roberts, Erw Gain, Llanrug.
£5: Miss M. Owen, 16 Bro Rhos, Bethel.
£1: Ruth Jones, Llanberis.

## AR WERTH

CHWARAEWR RECORDIAU mewn cyflwr da. *J. Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis.*

## DYDDIADUR

Sadwrn, Rhagfyr 1: PENISARWAUN: Trip i Gaer
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru yng Nglantraeth, Ynys Môn
Llun, 3: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched $ Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30
LLANBERIS: Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. – Noson yng nghwmni Mr Arwel Jones
Mawrth, 4: WAUNFAWR: Parti Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Llety, Caeathro
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Clwb Elidir
Mercher, 5: WAUNFAWR: Parti Nadolig Clwb Gwyrfai yng Ngwesty'r Marine, Caernarfon
LLANRUG: Y Cyngor Eglwysi – Seiat yng Nghapel Mawr am 7 o'r gloch
Iau, 6: LLANRUG: Ffair Nadolig Cymdeithas y Chwiorydd Capel Mawr
YR ARDAL: Theatr Bara Caws yn perfformio 'Hwyliau'n Codi' yn Ysgol Brynrefail
WAUNFAWR: Sefydliad y Merched – Arddangosfa Gemwaith gan Mrs Benham
DEINIOLEN: Cymdeithas y Chwiorydd Capel Disgwylfa
Gwener, 7: LLANBERIS: Eisteddfod Eglwysi Sant Peris a Sant Padarn
BETHEL: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yn 'Dôl Peris', Llanberis
PENISARWAUN: Noson Wasael yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch
Sadwrn, 8: WAUNFAWR: Cinio Nadolig Clwb y Mamau yng ngwesty Parc Eryri
YR ARDAL: Ffair Nadolig Rhanbarthol Merched y Wawr yn Neuadd y Fyddin, Caernarfon
Llun, 10: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30
CWM$Y$GLO: Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd. Yr elw i'r Tîm Pêl-droed
Mawrth, 11: LLANRUG: Merched y Wawr – Parti Nadolig yn yr Ysgol Gynradd
BRYNREFAIL: Swper Nadolig Clwb Refail yng Ngwesty'r Marine, Caernarfon
Mercher, 12: LLANRUG: Parti Nadolig yr Henoed yn yr Ysgol Gynradd
Iau, 13: LLANRUG: Blodau'r Grug – Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Hermon
Cymdeithas Lenyddol Capel M.C. – Seiat Holi
CWM$Y$GLO: Cyfarfod Cyhoeddus i ethol Pwyllgor Rheoli i'r Ganolfan Gymdeithasol
WAUNFAWR: Bore Coffi a 'Mince Pies' yn Festri Capel Croesywaun am 10 o'r gloch. Elw i'r Ysgol Feithrin
Gwener, 14: WAUNFAWR: Ffair Nadolig Cangen Plaid Cymru yn Neuadd yr Eglwys
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist Fawr yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
LLANBERIS: Te yr Henoed
Disgo dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan
Sadwrn, 15: BRYNREFAIL: Swper Nadolig Clwb Pedwar ugain yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon
PENISARWAUN: Swper Nadolig Clwb yr Heulwen yng Nglantraeth, Ynys Môn
Llun, 17: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30
BETHEL: Parti Nadolig Plant yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd am 12 o'r gloch
Mawrth, 18: LLANBERIS: Gwasanaeth Naw Llith a Charolau yn Eglwys Sant Padarn am6.30
Iau, 20: LLANRUG: Cinio Nadolig Clwb y Mamau ym Mhlas Henllys, Biwmares
Gwener, 21: WAUNFAWR: Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru yng Ngwesty'r 'Royal Goat', Beddgelert
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Marine, Caernarfon
Sadwrn, 22: LLANRUG: Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty'r 'Royal Goat', Beddgelert
LLANRUG: Parti Nadolig y 'Majorettes' yng ngwesty Dolbadarn, Llanberis
Sul, 23: LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. – Gwasanaeth Carolau
Mawrth, 25: DYDD NADOLIG: LLANRUG: Y Cyngor Eglwysi – Gwasanaeth Plygain ym Mhontrhythallt am 7 y bore
LLANBERIS: Gwasanaeth Dathlu'r Ŵyl yn Nant Padarn am 10 o'r gloch
Mercher, 26: LLANRUG: Disgo yn y Sefydliad Coffa o 7 tan 9.45 p.m.
Gwener, 28: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist Boteli yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
LLANBERIS: Disgo dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan
Llun, 31: DEINIOLEN: Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty'r Victoria,


Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa oddi wrth

*

GODFREY ROBINSON

PEIRIANNYDD TRYDANOL

*

1 Stryd Brynteg
BETHESDA
*Ffôn Bethesda 600708*



UCAC

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

Wyt ti'n athro?
Wyt ti'n Gymro?
Wyt ti'n genedlaetholwr?
Felly UCAC yw'r Undeb i warchod dy fuddiannau di a phlant Cymru.
Am fwy o fanylion cysyllter â
Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun
*neu* Dafydd Idriswyn, Ystumgwern, Rhoscefnhir, Pentraeth.



Recordiau NEWYDD sain



Mae pob un o'r rhain ar gael ar gaset hefyd
HOGIA'R WYDDFA'N Difyrru'r Amser
CÔR TELYN TEILO Anrheg Penblwydd
VERNON A GWYNFOR Ar Lan yr Afon
CÔR MEIBION Y BRYTHONIAID "Y Brythoniaid"
TELYN CYMRU Cyfrol 4
Pencampwyr Cerdd Dant:
Côr Merched Uwchllyn, Rhianedd Môn, Parti Lleu, Arfon Gwilym, Leah Owen, Parti'r Ynys, Côr Cantre'r Gwaelod, Margaret a Glenys.
GERAINT JARMAN Gwesty Cymru
TECWYN IFAN Goleuni yn yr Hwyr
DONIAU DYFFRYN LLIW
Record ddwbl o 21 o dalentau enwocaf Bro Eisteddfod Genedlaethol 1980.
CÔR MEIBION FRONCYSYLLTE Y Dwbl
PEDWARAWD Y WENALLT Y Border Bach

AR GAEL O'CH SIOP RECORDIAU LEOL

SAIN, PENYGROES, CAERNARFON, GWYNEDD Ffôn: Penygroes 732
sain



STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd


## CASGLU

*'Rwyf yn casglu gwybodaeth am hanes Llanrug (ardaloedd y Clegir, Cwm-y-glo, Ceunant, Llanrug, Pontrug-Bodrual, Caeathro, Bryngwyn, Tan-y-coed) o ganol y ddeunawfed ganrif ymlaen. e.e., hen deuluoedd, amaethyddiaeth, diwydiant, (melinau blawd, gwlân, llechi, chwareli, adeiladau etc.) crefydd (gwahanol enwadau) adloniant a diddordebau (chwaraeon, gwahanol gymdeithasau, corau, cyngherddau, eisteddfodau etc.) addysg.*

*Byddaf yn ddiolchgar o unrhyw daflenni, llyfrynnau, pamffledi, tocynnau, posteri, cardiau post, lluniau etc. sy'n adlewyrchu'r uchod.*

**D.W. Thomas,**
**Bron-y-nant,**
**Llanrug.**
*(Ffôn: Caernarfon 3515)*

Cangen Plaid Cymru yn dathlu noson galan gyda 'Croeso '80' yng Nglangwna, Caeathro



TYRCWN,
GWYDDAU,
IEIR
AR GYFER
Y NADOLIG –

Bydd y rhai
gorau eto
eleni yn siop

Wavell Roberts

LONDON HOUSE
LLANRUG

Pen Cigydd y Fro!
Archebwch rwan!



# CHWARAEON

## MAE'R SGRIFEN AR Y MUR

**'Dyw'r hen gynghrair ddim fel y buodd hi – y llynedd, y flwyddyn gynt, na chyn hynny ychwaith – hynny yw, o safbwynt Clwb Pêl-droed Llanrug. Mae eu safle yn bedwerydd yn nhabl y gynghrair ac un gêm ar ddeg ar ôl i'w chwarae, yn un nad yw'n hawdd dygymod ag o, yng ngolau'r llwyddiant a ddaeth i'w rhan yn y tymhorau diwethaf. Bellach erys eu hunig siawns yn y gobaith fod Llanberis, Mountain Rangers ac ail dîm Caernarfon am golli gemau ac ailagor y drws iddynt.**

Beth tybed sy'n gyfrifol am y dirywiad a achosodd iddynt golli, cyn hanner y tymor, fwy o gemau nag a fu eu harfer dros dymhorau cyfan?

Ai cyd-ddigwyddiad yw mai yn sgîl ymddiswyddiad Howyn Jones fel Rheolwr-Chwaraewr y daeth y dirywiad hwn? Gwn mai rhoi'r gorau iddi er mwyn cael canolbwyntio ar ei chwarae a wnaeth, a'i fod eisoes wedi chwarae mwy o gemau nag a wnaeth drwy'r tymor diwethaf, ond mae ei gyd-chwaraewyr er hynny'n siŵr o weld eisiau ei brofiad gweinyddol a'i wybodaeth o dactegau'r gêm.

Ni fu'r ffaith iddynt fethu â chadw Gwynfor Owen fel rheolwr yn galondid iddynt, a thybed ai doeth fu rhannu'r swydd wedyn rhwng Peter Roberts (a wrthododd ei chymryd ar ei ben ei hun) a Vernon Lloyd?

Bu colli Dic Owen, o'i anafu, am gyfnod hir yn nechrau'r tymor yn esgus effeithiol am y diffyg llwyddiant gan fod yn rhaid cyfaddef fod dylanwad y sgoriwr aml hwn ar ei gyd-chwaraewyr yn fawr. Credaf, er hynny, nad dyna'r achos, ond yn hytrach effaith yr achos, sef mai polisi Llanrug dros y tymhorau diwethaf fu ymddiried ar garfan fechan iawn o chwaraewyr, ac er eu rhinweddau amlwg, nid colli Dic Owen ond diffyg chwaraewr addas i gymryd ei le oedd yn bwysig. Credaf fod iddynt lai na phymtheg o chwaraewyr yn eu carfan, ac os dyna'r gwir, yna mae'r hyn a ddigwyddodd y Sadwrn diwethaf, a'r hyn a all ddigwydd o ganlyniad, yn hollol ddealladwy. Methwyd â chael tîm i wrthwynebu Bangor Athletic mewn gêm Gwpan gan nad oedd digon o chwaraewyr ar gael oherwydd anafiadau.

Nid beirniadu Clwb Pêl-droed Llanrug yw fy swyddogaeth na'm bwriad, ond effaith diffyg rhagwelediad yn unig fu'r digwyddiad hwn, ac mae'n syndod braidd fod swyddogion a phwyllgor mor weithgar ac effeithiol wedi caniatáu i'r fath sefyllfa fodoli.

Nid fy swyddogaeth i ychwaith yw awgrymu sut i ddatrys eu problemau, ond mae'n amlwg y bydd yn rhaid iddynt, o leiaf, ystyried cynnal carfan helaethach o chwaraewyr. Nid yw llwyddiant y blynyddoedd a fu yn dal dŵr yn wyneb digwyddiad y Sadwrn diwethaf.

Nid yw'r tymor drosodd eto, o bell ffordd, a gobeithiaf o waelod calon y bydd swyddogion a chwaraewyr Llanrug yn fy ngorfodi i lyncu fy ngeiriau cyn mis Mai. Mae'r gobaith am o leiaf dair cwpan yn aros iddynt, ond mae 'mhres i ar Lanberis i ennill y bencampwriaeth os yw am aros ym mro'r Eco.

### TABL Y GYNGRHAIR

| | CH. | E. | CYF | COLLI | OB. | YN | Pt. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M. Rangers | 14 | 11 | 1 | 2 | 41 | 15 | 23 |
| Caer. Res. | 15 | 9 | 4 | 2 | 49 | 19 | 22 |
| Llanberis | 12 | 9 | 3 | 0 | 42 | 11 | 21 |
| Llanrug | 15 | 9 | 2 | 4 | 36 | 21 | 20 |

#### LLANBERIS

Curo Bangor Athletic yn hawdd o 8 gôl i 1 ar y 3ydd ond ar y 10fed cael llawer mwy o drafferth gyda Mountain Rangers. Ieuan Evans yn sgorio unig gôl y gêm iddynt i ennill y pwyntiau. Gêm hawdd eto yn erbyn Porthmadog ar y 17eg, – curo o 5 gôl i un.

Y Sadwrn diwethaf, yn nhrydedd rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru y daeth yr unig nodyn chwerw gan iddynt golli yn Rhydymwyn o ddwy gôl i ddim ym munudau ola'r gêm. Gresyn eu bod allan o'r gystadleuaeth, yn enwedig gan iddynt deithio yno heb eu tîm gorau.

#### LLANRUG

Trechwyd y Felinheli o bedair gôl i ddwy ond colli fu eu hanes yn Hirael (1-0) ac yng Nghaernarfon Utd (2-0). Yn waeth na cholli'r pwyntiau yn Hirael collwyd hefyd Dic Owen a Dafydd Jones o'u hanafu a 'doedd ond carfan o 12 i ddewis ohonynt ar gyfer y Sadwrn dilynol. 'Roedd y sefyllfa'n waeth ar gyfer y Sadwrn diwethaf, gêm drydedd rownd y Gwpan Iau, fel y crybwyllwyd eisoes – 5 chwaraewr wedi eu hanafu ac yn methu chwarae. Tybed beth fydd penderfyniad y pwyllgor cystadlaethau? Colli'r gêm am wrthod chwarae?

## SNWCER

Fy niolch i Glwb Snwcer Llanrug eto am eu cyfraniad. Yn ystod y mis enillodd y Duon bedair o'u pum gêm gynghrair a llwyddo i gyrraedd trydedd rownd y Gwpan Pattison a Chwpan y Gynghrair.

Mae Tony Brobyn, Keith Jones a Clive Griffiths yn nhrydedd rownd y gystadleuaeth i unigolion, a daeth tystysgrifau'r Gynghrair i dri aelod am wneud 'break' uchel: Noel Owen (36), Tony (37) ac 'roedd 'break' Clive o 38 yn gyfartal â'r orau yn yr holl gynghrair y tymor hwn.

Mae'r Duon bellach yn 3ydd yn y brif gynghrair, a'r ail dîm, y Gleision, yn ail yn Adran B. Maent hwythau hefyd yn ail rownd y Gwpan Pattison, ac mae D. Hughes, G. Roberts, P. Lee a G. Griffiths yn ail rownd cystadleuaeth i unigolion Adran B. Mae dau bâr hefyd yn ail rownd y gystadleuaeth i barau, a G. Griffiths a D. Williams yn y drydedd.

## LLWYDDIANT ETO

Llongyfarchiadau i Adrian Williams, Llanberis am ennill Tlws Aur i rai dan 18 oed ym Mhencampwriaeth Gogledd-orllewin Cymru ym Mhlas Madoc, Wrecsam yn ystod y mis. Enillodd hefyd y Tlws i rai dros 70kg mewn pwysau, a chyflwynwyd Tarian Pencampwr Iau Gogledd Cymru am 1979 iddo.

Pymtheg oed ydyw, ac mae'n aelod o Glwb Judo Bushido, Bangor.

Mae'r belt glas eisoes ganddo; 'sgwn i faint fydd yn rhaid disgwyl nes y caiff ei felt du?



## PYTIAU

*Mae tri o fechgyn Ysgol Brynrefail, aelodau o dîm Deiniolen, sef Carl Williams, Kevin Jones a Llion Evans wedi eu gwahodd i ymarfer â thîm Lerpwl ym mis Chwefror fel y gall swyddogion y clwb daflu llygaid drostynt.*

*Athro sy'n gweithio yn y ddinas, ond sydd â'i gartref yn Ninorwig, a sylweddolodd fod y tri yn werth 'treial', ac ef fu'n cysylltu rhwng y clwb ac Elfed, tad Carl a Rheolwr Tîm Cynghrair Gwyrfai, Deiniolen, Pob lwc i'r tri!*

*Mae nifer o fechgyn yr Ysgol hefyd yng ngharfannau timau pêl-droed Ysgolion Arfon. Mae Iwan Pritchard, Steven Owen, Gwyn Morris, Alan Williams ac M. Allen yn y tîm o dan 13 oed; A. Wakeham, Ceris Jones, Dilwyn Morris a John Williams yn y tîm dan 15 oed a Carl W lliams a Kevin Jones yn y tîm hŷn.*

*Daeth llythyr i law gan Mr John Williams, Y Gors, Llanrug yn awgrymu fod cofnodion chwaraeon Ysgol Brynrefail wedi eu coginio! — gan i mi gyhoeddi mai'r ddiweddar Dilys Price a enillodd y Vitrix Ludorum yn 1939. Nace, medda fo, Joan Rees Edwards o Ddinorwig a'i henillodd. Ie, mynnaf innau eto, gan mai ei rhannu rhwng y ddwy a wnaed. Fy ymddiheuriad i Mrs Williams (bellach) am beidio â rhoi sylw iddi, ond wedi'r cyfan erthygl ar Dilys Price oedd mewn llaw ar y pryd.*

## HEN LUN DIDDOROL

*Daeth y darlun a'r llythyr a ganlyn i law oddi wrth y Parch Herbert Thomas, Llannor. Fy niolch iddo unwaith eto am gefnogi'r dudalen ôl.*

**TÎM PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL 1923-24**



*Y BLAENWYR: Eifion Owen, Emrys Williams, Robt. Jones, Michael Rowlands, John Jones, Mr R. Morris, B.A.*

*HANERWYR: Eric Williams, Morgan Thomas, Irfon G. Jones.*

*CEFNWYR: Emyr Glyn Roberts, Herbert Thomas, John O. Griffith.*

*Nid oedd hwn yn dîm da gan fod wyth o chwaraewyr y flwyddyn gynt, oedd yn dîm da iawn, (gweler 'Tros Bont Penllyn,' — Mat Pritchard, tud. 47) wedi gadael. 'Roedd yr ysgol mewn trafferthion ariannol go fawr hefyd y pryd hwnnw ac yn rhy dlawd i brynu crysau i'r tîm. Dyna oedd yn gyfrifol am y crysau amrywiol mae'r hogiau yn eu gwisgo. 'Roedd pawb yn gorfod gofalu am ei grys ei hun, talu ei gludiad pan chwaraeid i ffwrdd, a thalu am baned a lluniaeth i'r ymwelwyr pan chwaraeid gartref. Beth tybed feddyliai plant presennol Brynrefail o hynna?*